Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
49/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
22/08/2017

# Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant

# Adolygiad o'r Ail Flwyddyn

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN digidol 978-1-4734-9799-3

## Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant

## Adolygiad o'r Ail Flwyddyn

## Awdur: Kathleen Mulready, Llywodraeth Cymru


Mulready, K., (2017). *Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant Adolygiad o'r Ail Flwyddyn* Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad YGLI...

Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/research-fusion-creating-opportunities-through-culture-programme/?lang=cy


Safbwyntiau yr ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Kathleen Mulready

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1481

E-bost: kathleen.mulready001@llyw.cymru

**Tabl cynnwys:**

Rhestr o acronymau

1. Cyflwyniad ........................................................................ 2

2. Methodoleg ........................................................................ 15

3. Canfyddiadau o'r arolwg a'r cyfweliadau .................................. 22

4. Casgliadau ........................................................................ 68

## Rhestr o acronymau

| | |
|---|---|
| ALl | Awdurdod Lleol |
| Cyngor y Celfyddydau | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| GSR | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth |
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| LSOA | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| MALD | Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd |
| NEET | Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ebrill 2017 comisiynydd Amgueddfa Cymru - National Museum Wales ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (MALD) adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad o ail flwyddyn cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno. Cynhaliwyd yr adolygiad gan ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru o fewn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), ac ymchwilydd cymdeithasol yn Amgueddfa Cymru yn yr Is-adran Ymgysylltu a Dysgu. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y dystiolaeth ar ddiwylliant a threchu tlodi yng Nghymru a fydd yn ei dro yn llywio datblygiad y rhaglen Cyfuno.

1.2 Dau brif amcan yr adolygiad oedd:

- Cael barn ystod eang o randdeiliaid diwylliannol sy'n cymryd rhan mewn Partneriaethau Cyfuno i asesu effaith y rhaglen ar eu sefydliadau eu hunain.

- Cael barn fanylach ar effaith y rhaglen gan sampl fach o'r rhanddeiliaid diwylliannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg ar-lein, a anfonwyd at sampl o 190 o randdeiliaid o sefydliadau'r Bartneriaeth Cyfuno, a chyfweliadau ansoddol gyda 10 o randdeiliaid diwylliannol. Mae'r adolygiad o'r ail flwyddyn yn adeiladu o ganfyddiadau gwerthusiad o flwyddyn beilot a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.[1]

[1] Llywodraeth Cymru (2016). Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi. http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-pioneer-areas-pilot-year/?lang=cy [Fel ar 16 Mai 2017]

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod nad oedd cwmpas a chynllun yr adolygiad yn ei gwneud yn bosibl i amcangyfrif y gwrthffeithiol;[2] felly, mae'n anodd asesu i ba raddau y gellir priodoli'r newidiadau a nodwyd gan randdeiliaid i'r peilot o'r Bartneriaeth Cyfuno. Mae effaith ddiwylliannol yn bwnc cymhleth ac eang ei gwmpas, fel yr adlewyrchir mewn dadleuon methodolegol ehangach ar fesur gwerth diwylliant (gweler er enghraifft Gomisiwn Warwick 2015[3]).

1.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu cyd-destun yr adolygiad;
- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg ac yn esbonio sut cynhaliwyd yr astudiaeth hon;
- Mae Pennod 3 yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ansoddol;
- Mae Pennod 4 yn crynhoi casgliadau'r ymchwil.

**Cyd-destun**

1.6 Cafodd rôl y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth feithrin gallu a sgiliau pobl, a helpu i fynd i'r afael ag amcanion trechu tlodi a chefnogi adfywio cymunedol, ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012- 2016* (Llywodraeth Cymru 2013, t. 16, 19).[4] Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ym mis Gorffennaf 2013 gan ddarparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cydgysylltu camau a rhaglenni gwrthdlodi ledled Cymru.

1.7 O dan y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, amlygwyd gwella cyrhaeddiad addysgol, trechu tlodi a chefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig fel blaenoriaethau i Lywodraeth Cymru, ac maent yn parhau felly o dan fframwaith trosfwaol *Deddf Llesiant*

[2] Yn ôl y Magenta Book (Trysorlys Ei Mawrhydi 2011) mae ymdrechion i geisio amcangyfrif y gwrthffeithiol yn darparu mesur o i ba raddau y gellir priodoli unrhyw newidiadau a welir mewn canlyniad o ddiddordeb i bolisi - hynny yw, beth fyddai wedi digwydd i'r canlyniad o ddiddordeb pe na bai'r polisi'n bodoli - drwy reoli ffactorau eraill a allai fod wedi achosi i'r canlyniad a welwyd ddigwydd.
[3] Comisiwn Warwick, (2015) 'Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth' http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/warwick_commission_final_report.pdf [Fel ar 13 Gorffennaf 2017]
[4] Llywodraeth Cymru, (2013) Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016. http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplancy.pdf [Fel ar 15 Mai 2017].

*Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a rhaglen lywodraethu gyfredol Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*.[5]

1.8 Elfen allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu dull strategol o lunio polisïau yn seiliedig ar fframwaith o ganlyniadau hirdymor. Cyfeirir at y rhain fel y "nodau llesiant", sy'n dod law yn llaw â "dangosyddion cenedlaethol" lefel uchel a ddefnyddir i fesur cynnydd Cymru yn erbyn y nodau hyn. Mae'r Ddeddf yn darparu'r weledigaeth genedlaethol drosfwaol a'r cyfeiriad strategol ar gyfer llunio polisïau yng Nghymru. Mae'n sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol sydd â mwy o gyfrifoldeb dros atal tlodi a llesiant diwylliannol yn unol â blaenoriaethau lleol ar lefel strategol. I Lywodraeth Cymru, llesiant, yn ei ystyr ehangaf, yw un o ganlyniadau allweddol gweithgaredd celfyddydol a diwylliannol (Llywodraeth Cymru 2016b, t. 11).

1.9 Yn 2013, comisiynodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon adolygiad o sut y gallai cyrff diwylliannol a threftadaeth ledled Cymru "gyfrannu'n fwy effeithiol i leihau tlodi a chodi uchelgais." (Andrews 2014, t. 1). Arweiniwyd yr adolygiad gan y Farwnes Kay Andrews OBE.

1.10 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Andrews, sy'n dwyn y teitl *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2014), [6]ym mis Mawrth 2014, a nododd "mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a chyfrannu ato, fel agwedd ar gyfiawnder cymdeithasol ynddo ei hun, ac fel arf pwerus yn erbyn tlodi – pob math o dlodi" (ibid). Galwodd ar Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, sefydliadau diwylliannol, cyrff cymunedol ac ysgolion ledled Cymru i gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn cynyddu i'r eithaf fanteision cyfranogiad diwylliannol i unigolion sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

1.11 Roedd adroddiad terfynol Andrews yn datblygu ac yn ategu canfyddiadau ac argymhellion adroddiad cynharach a oedd yn dwyn y

---

[5] Llywodraeth Cymru (2016). Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy [Fel ar 16 Mai 2017]

[6] Andrews, K., (Mawrth 2014). Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf [Fel ar 15 Mai 2017].

teitl *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (Smith 2013)[7] gan yr Athro Dai Smith, a oedd yn ystyried rôl y celfyddydau mewn cyd-destunau addysgol ffurfiol. Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, roedd adroddiad annibynnol Smith yn ymchwilio i'r berthynas rhwng y sector addysg a'r sector celfyddydol yng Nghymru ac yn dadlau y gall, ac y dylai, y celfyddydau a chreadigrwydd fod yn ganolog i fywyd ysgol o ran gwella cyrhaeddiad addysgol.

1.12 Mae'r agenda ar gyfer darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio diwylliant yn ystod y diwrnod ysgol wedi cael ei datblygu drwy'r cynllun gweithredu ar gyfer Cymru *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*.[8] Mae tystiolaeth gynyddol bod y rhaglen yn gwella cyrhaeddiad, yn cynyddu cyfleoedd ac n galluogi dysgwyr ac athrawon i ddatblygu eu sgiliau a'u creadigrwydd. Canmolodd yr Athro Graham Donaldson y dull yn ei adroddiad dylanwadol *Dyfodol Llwyddiannus* a oedd yn adolygu'r trefniadau cwricwlwm ac asesu cenedlaethol yng Nghymru.[9]

1.13 Mewn ymateb i adroddiad y Farwnes Kay Andrews, sydd, er yn cydnabod yr arferion da a'r ymdrechion hyd yma, wedi gwneud achos cryf dros gydweithio i warantu diwylliant sy'n hygyrch i bawb, beth bynnag eu cefndir a ble bynnag maent yn byw, sefydlodd Llywodraeth Cymru *Cyfuno: Trechu Tlodi trwy Ddiwylliant* (rhaglen Cyfuno). Yn elfen hollbwysig o'r rhaglen Cyfuno, mewn datganiad yn y cyfarfod llawn ar 11eg Tachwedd 2014, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y byddai'n sefydlu chwe 'Ardal Arloesi' ledled Cymru. Rheolir y rhaglen Cyfuno gan MALD a'i nod yw annog a grymuso pobl i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar lefel gymunedol leol. Ym mob Ardal Arloesi, cysylltodd sefydliadau diwylliannol, grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau addysg â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gydweithio ar ddatblygu cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol; yn arbennig,

---

7 Smith. D., (2013). Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru. http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf [Fel ar 15 Mai, 2017].

9 http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

ymhlith yr unigolion, y grwpiau a'r cymunedau hynny na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â'r mathau hyn o weithgareddau.

1.14 Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru, *Golau yn y Gwyll*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, yn honni bod diwylliant yn flaenoriaeth i'r llywodraeth.[10] Mae'n cydnabod y rôl y gall diwylliant ei chwarae o ran "datblygu hyder, sgiliau, a chyflogadwyedd" (Llywodraeth Cymru 2016b, t. 2) ac yn cyfeirio at raglen Cyfuno fel un â chanddi ran hanfodol i'w chwarae o ran y canlynol:

*"Mae ein 'Rhaglen Cyfuno' yn dangos sut y gall diwylliant rymuso pobl ddifreintiedig sydd wedi ymddieithrio, a rhoi llais iddynt. Mae'r rhaglen hon yn chwalu rhwystrau, ac yn nodi ffyrdd newydd o annog pobl i ymweld â safleoedd diwylliannol a chymryd rhan mewn prosiectau diwylliannol...Mae hon yn ffordd newydd radical o sicrhau bod ein buddsoddiad diwylliannol yn canolbwyntio ar y bobl mwyaf anghenus."*

1.15 Mae Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol strategol wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r rhaglen Cyfuno. Ei gylch gwaith yw ysgogi newid ar draws ystod eang o adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir, a sefydliadau diwylliannol a chymunedol ar draws y sector awdurdodau lleol (ALl) a'r trydydd sector.

1.16 Mae cyrff diwylliant a threftadaeth cenedlaethol, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, Cadw, yn cefnogi'r gwaith o reoli'r rhaglen Cyfuno a hefyd yn gweithredu fel asiantau cyflawni a phartneriaid allweddol ar lefel leol. Mae'r awdurdod lleol perthnasol yn bartner pwysig hefyd, ynghyd ag ystod eang o sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

1.17 Y diffiniad o ddiwylliant a fabwysiadwyd gan y rhaglen Cyfuno yw'r un diffiniad ag sydd yn adroddiad Andrews, lle y dywedir "nid dim ond y celfyddydau y mae diwylliant yn ei olygu...ond mae hefyd yn cynnwys

---

[10] Llywodraeth Cymru, (2016). Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru. http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/arts/a-vision-for-culture-in-wales/?lang=cy [Fel ar 26 Mehefin 2017]

treftadaeth a’r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cyfraniad amgueddfeydd, llyfrgelloedd a’r cyfryngau" (Andrews 2014, t. 3).

1.18 Yn ystod cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno, a oedd yn cael ei gynnal yn ystod blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y rhaglen (o fis Ebrill 2015 tan fis Mawrth 2017), gweithiodd yr Ardaloedd Arloesi yn gyfan gwbl gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Rhaglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar y gymuned yw Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan y rhaglen ffocws daearyddol sy'n canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan sicrhau bod unigolion, teuluoedd a grwpiau sy'n agored i niwed yn y cymunedau hynny yn cael eu cefnogi. Mae 52 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gyd, a elwir yn glystyrau, sy'n cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA). Mae gan bob clwstwr Gynllun Cyflawni i ddiwallu anghenion lleol ac i sicrhau bod pob clwstwr yn cyfrannu at drechu tlodi a bod y trigolion yn cael eu helpu a'u cefnogi. Mae fframwaith o ganlyniadau a mesurau perfformiad wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y rhaglen. Gellir cael mwy o wybodaeth am y fframwaith hwn yn Adran Tri ac Atodiad Pump o Ganllawiau Rhaglen 2013 Cymunedau yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru 2013).[11]

1.19 Ym mis Hydref 2016, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Blant a Chymunedau ymarfer ymgysylltu ar ddull Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o greu cymunedau cydnerth. Ym mis Ionawr 2017 cadarnhawyd y byddai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei dirwyn i ben yn raddol erbyn mis Mawrth 2018.[12]

1.20 Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen Cyfuno, sefydlwyd chwe Ardal Arloesi ar draws 15 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf i dreialu'r dull. Roedd yr Ardaloedd Arloesi hyn fel a ganlyn:

- Abertawe

---

[11] Llywodraeth Cymru (2013). Canllawiau Rhaglen 2013 Cymunedau yn Gyntaf . http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf [Fel ar 19 Mai 2017].
[12] Am fwy o wybodaeth gweler: http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy [Fel ar 19 Mai 2017]

- Caerdydd a Merthyr Tudful (gyda'i gilydd, a oedd yn ffurfio un ardal)
- Casnewydd
- Gwynedd
- Torfaen
- Wrecsam

1.21 Roedd yr amcanion allweddol ar gyfer pob Ardal Arloesi yn cynnwys gweithredu rhaglenni gweithgaredd a oedd yn ymateb i argymhellion Andrews ac yn cyflawni canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf; gan ddarparu dull cyd-ddysgu a chyfnewid gwybodaeth; nodi a rhannu arferion da; a chyfrannu at werthuso'r rhaglen Fusion yn ei chyfanrwydd, drwy ddarparu'r adroddiadau perthnasol a data monitro (Llywodraeth Cymru 2016b, t. 4, 5).

1.22 Ar gyfer ail flwyddyn y rhaglen Cyfuno, o fis Ebrill 2016 tan fis Mawrth 2017, ychwanegwyd pedair Ardal Arloesi a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen gan ddod â'r cyfanswm i 10, ar draws 25 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys yr awdurdodau lleol canlynol:

- Caerffili
- Conwy
- Sir Gaerfyrddin
- Sir y Fflint

1.23 Mae mapiau yn amlinellu'r ardaloedd a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a gymerodd ran yn y rhaglen yn ystod yr ail flwyddyn (o fis Ebrill 2016 tan fis Mawrth 2017) ar gael yn **Atodiad A**.

**Gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y cyfnod peilot**

1.24 Un o elfennau hollbwysig rhaglen beilot yr Ardaloedd Arloesi oedd darganfod a oedd y dull wedi llwyddo i gynyddu nifer y bobl ifanc, oedolion a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ac mewn ffyrdd sy'n eu helpu i ddysgu a meithrin sgiliau a hyder. Gyda hyn mewn golwg, comisiynwyd gwerthusiad o flwyddyn beilot yr Ardaloedd Arloesi. Arweiniwyd y gwaith ymchwil gan Amgueddfa Cymru, gyda chymorth KAS. Ariannwyd uwch ymchwilydd ar y cyd gan Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru i gydlynu'r gwerthusiad, gyda chymorth gan KAS.

1.25 Amlygodd yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi (2014, t. 14-28) amrywiaeth y sector diwylliannol a'r agenda ymchwil gyfatebol gymhleth a oedd yn datblygu mewn perthynas â hynny. Ceir gwaith ymchwil sy'n dangos effaith diwylliant o ran hyrwyddo nodau cymdeithasol ac economaidd, ym meysydd iechyd a lles ac addysg er enghraifft. Fodd bynnag, o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd, mae bylchau sylweddol yn dystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau cymdeithasol diwylliant (gweler, er enghraifft, Taylor et al. (2015) a TFCC (2015) ar gyfer trafodaeth ar dreftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau), o ran nifer ac ansawdd cyffredinol yr astudiaethau. O fewn y dystiolaeth, mae'r rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol wedi cael eu cydnabod fel rhai sy'n cyflwyno her fawr i feithrin dealltwriaeth o werth ac effaith diwylliant. Cafodd hyn ei gydnabod gan Gomisiwn Warwick ar Ddyfodol Gwerth Diwylliannol[13] (Neelands et al. 2015, t. 8), er enghraifft, a gynhaliodd ymchwiliad cynhwysfawr a chyfannol i ddyfodol gwerth diwylliannol. Mae gwaith y comisiwn, ynghyd â gwaith y Prosiect Gwerth Diwylliannol a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau,[14] wedi cyfrannu at

[13] I gael rhagor o wybodaeth am ddogfen Comisiwn Warwick ar Ddyfodol Gwerth Diwylliannol gweler: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/ [Fel ar 18 Mai 2017]

[14] I gael rhagor o wybodaeth am y Prosiet Cultural Value a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau gweler: http://www.ahrc.ac.uk/research/fundedthemesandprogrammes/culturalvalueproject/ [Fel ar 18 Mai 2017]

brif-ffrydio'r drafodaeth fethodolegol ar werth ac effaith diwylliant yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf.

1.26 Yn dilyn y cyfnod peilot, mae'r rhaglen Cyfuno wedi cael ei hadnewyddu i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r cyfnod peilot a chyd-destun newydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen Cyfuno yn parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd, ac yn parhau i gyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio tair thema Cyfuno, sef cyflogadwyedd a sgiliau; cefnogi'r blynyddoedd cynnar; a chefnogi iechyd a lles. Mae'r rhaglen yn cael ei hadnewyddu fel *Cyfuno: Creu Cyfleoedd trwy Ddiwylliant*, ac mae'r term 'Ardal Arloesi' wedi cael ei ddisodli gan y term 'Partneriaeth Cyfuno', nawr bod y model gweithio hwn wedi cael ei sefydlu. Yn unol â'r newidiadau hyn, mae gweddill yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y 'Bartneriaeth Cyfuno' i ddisgrifio yr hyn y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel 'Ardal Arloesi'. Er mwyn cefnogi'r rhaglen, lansiwyd cronfa Grant Her Cyfuno strategol newydd ym mis Chwefror 2017.[15]

**Annog dull mwy cadarn o fonitro**

1.27 Yn dilyn argymhellion y gwerthusiad blwyddyn beilot, nod allweddol ar gyfer Partneriaethau Cyfuno sy'n cymryd rhan yn ystod ail flwyddyn y cyfnod peilot oedd i weinyddu dull mwy ffurfiol a chadarn i'r monitro parhaus a gwerthuso canlyniadau. Roedd hyn oherwydd bod asesiad o ganlyniadau ar draws Partneriaethau Cyfuno ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod peilot wedi'i lesteirio oherwydd prinder gwybodaeth fonitro gyson, cadarn a chymaradwy. O ganlyniad, un o'r nodau yn ystod ail flwyddyn y cyfnod peilot oedd cynnal asesiad o gyfraniad y rhaglen Cyfuno tuag at fesurau perfformiad Cymunedau yn Gyntaf.

1.28 Cafodd y gwaith hwn ar wella'r wybodaeth fonitro a ddarparwyd gan Gyrff Cyflawni Arweiniol i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith gan swyddogion lleoli o fewn MALD. Adroddodd pob Corff Cyflawni Arweiniol

[15] Llywodraeth Cymru (2017). Grantiau Her Cyfuno 2017-18. http://gov.wales/docs/drah/pYHOEDDIADAU / 170,203-ymdoddiad-info-ymgeiswyr-cy.pdf [Fel ar 19 Mai 2017]

ar ei gynnydd a'i berfformiad cyffredinol yn erbyn y canlyniadau a chyflwyno astudiaethau achos i MALD drwy adroddiad monitro interim (sy'n cwmpasu 1 Ebrill - 30 Medi 2016) ac adroddiad monitro diwedd blwyddyn (yn cwmpasu Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017). Yn ogystal ag adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol, cynhaliwyd ymweliadau monitro rhwng pob Corff Cyflawni Arweiniol a swyddogion Llywodraeth Cymru (Ymgynghorydd Prosiect Strategol MALD ac ymchwilydd cymdeithasol o KAS) yn ystod Rhagfyr 2016.

1.29 Roedd yn ofynnol i bob un o'r 10 Corff Cyflawni Arweiniol a oedd yn rhan o'r rhaglen Cyfuno yn ystod yr ail flwyddyn i adrodd ar y canlyniadau a gyflawnwyd yn erbyn Fframwaith Mesurau Perfformiad Cymunedau yn Gyntaf, sy'n cynnwys 101 o ddangosyddion ar draws tair thema:

- Ffyniannus;
- Dysgu; a
- Cymunedau Iachach.

Roedd pob Corff Cyflawni Arweiniol yn gyfrifol am gasglu data ar ran eu partneriaeth gan ddefnyddio dulliau adrodd presennol Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r dyddiad yn y tabl yn **Atodiad B** yn sampl o rai o'r mesurau perfformiad mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar draws y rhaglen ynghyd â chyfanswm nifer yr unigolion yr adroddwyd eu bod yn bodloni'r canlyniad a ddymunir. Roedd y sampl yn rhoi darlun o'r cyfraniad a wneir gan y rhaglen yn erbyn fframwaith perfformiad Cymunedau yn Gyntaf. Ar gyfer rhai gweithgareddau Cyfuno, adroddwyd mwy nag un canlyniad ar gyfer unigolyn ar gyfer yr un gweithgaredd.[16] Casglodd y partneriaethau yr wybodaeth fonitro mewn ffyrdd gwahanol yn ogystal ag adrodd arni mewn ffyrdd gwahanol. Dylid cadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof wrth ddehongli'r data.

[16] Er enghraifft, efallai fod oedolyn sy'n derbyn cymhwyster hefyd wedi adrodd bod ei agwedd tuag at ddysgu yn fwy cadarnhaol neu eu bod yn llai ynysig yn gymdeithasol.

1.30 Mae dadansoddiadau pellach o'r data monitro ar gael ar gais gan y tîm Cyfuno.

1.31 Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan ardaloedd dros y cyfnod peilot wedi cael ei hadrodd mewn ffeithlun sy'n cyflwyno trosolwg cyffredinol o gyrhaeddiad y rhaglen Cyfuno dros ei ddwy flynedd gyntaf. Ceir trosolwg o'r gwaith hwn ac mae copi o'r ffeithlun ar gael yn **Atodiad C**.[17]

[17] Mae'r ffeithlun hefyd ar gael yn: http://llyw.cymru/topics/culture-tourism-sport/tackling-poverty-through-culture/?skip=1&lang=cy [Fel ar 19 Mai 2017]

# 2 Methodoleg

### Diben yr Ymchwil

2.1 Nod cyffredinol yr adolygiad hwn oedd asesu i ba raddau y mae cyrff cyflenwi wedi alinio gwasanaethau a phrosiectau i gyflawni amcanion y rhaglen Cyfuno. Roedd yr ymchwil yn ceisio deall barn sefydliadau diwylliannol am sut mae'r Partneriaethau Cyfuno yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellid ei wella, er mwyn cyfrannu at ddatblygiad a gwelliant parhaus y rhaglen Cyfuno. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad peilot eleni, roedd gan yr adolygiad hwn o ail flwyddyn cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno ddau brif amcan:

- Cael barn ystod eang o randdeiliaid diwylliannol a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Ardaloedd Arloesi i asesu effaith y rhaglen ar eu sefydliadau eu hunain.

- Cael barn fanylach gan sampl fach o'r rhanddeiliaid diwylliannol.

### Cwmpas yr adolygiad

2.2 Er bod y gwerthusiad o'r flwyddyn beilot yn canolbwyntio ar y Cyrff Cyflawni Arweiniol ac ar werth sefydlu'r dull Ardaloedd Arloesi yn fwy cyffredinol, roedd yr adolygiad hwn o ail flwyddyn y cyfnod peilot yn canolbwyntio'n fwy manwl ar y rhwydwaith Partneriaethau Cyfuno ehangach ac yn fwy penodol, ar farn y sefydliadau diwylliannol sy'n cymryd rhan.

### Dulliau

2.3 Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn cynnwys arolwg ar-lein gydag amrywiaeth o randdeiliaid o'r Partneriaethau Cyfuno wedi'i ddilyn gan gyfweliadau lled-strwythuredig ansoddol gyda randdeiliaid sy'n cynrychioli sefydliadau diwylliannol. Y sail resymegol oedd bod arolwg yn caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu am safbwyntiau, blaenoriaethau a phrofiadau rhanddeiliaid ar draws y rhwydwaith o Bartneriaethau Cyfuno sy'n cymryd rhan; ac roedd y

cyfweliadau yn fodd o ymchwilio’n fanylach i farn a phrofiadau'r rhaglen Cyfuno yn dilyn dadansoddiad o brif ganlyniadau'r arolwg.

**Sampl**

2.4 Nodwyd y sampl ar gyfer yr arolwg gan Gyrff Cyflawni Arweiniol. Ar wahân, cyflwynodd y 10 Bwrdd Cyflawni Arweiniol o bob un o'r ardaloedd Partneriaeth Cyfuno fanylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) eu partneriaid neu aelodau Partneriaeth Cyfuno perthnasol i MALD. Yna cafodd y manylion eu cyfuno'n un rhestr o randdeiliaid, a chafodd dyblygiadau, ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau Partneriaeth Cyfuno ar lefel weithredol, eu heithrio o'r sampl. Roedd sampl terfynol yr arolwg yn cynnwys 190 o randdeiliaid. Roedd sampl yr arolwg ar gyfer pob un o'r 10 partneriaeth yn cynnwys gwasanaethau sefydliad diwylliannol ac awdurdodau lleol. Cafodd y terfyn amser ar gyfer ymateb i'r arolwg ei ymestyn oherwydd y gyfradd ymateb isel gychwynnol. O sampl yr arolwg, cafwyd 64 o ymatebion i gyd, gan roi cyfradd ymateb o 34 y cant.

2.5 Defnyddiwyd dull bwriadol i nodi sampl o 10 o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli sefydliad diwylliannol i gymryd rhan yn y cyfweliadau ansoddol. Y nod allweddol sy'n sail i'r strategaeth samplu oedd cael safbwyntiau gwahanol ar y rhaglen gan bob un o'r 10 Partneriaeth Cyfuno sy'n rhan ohoni. Dewiswyd y sampl i gynnwys sefydliadau ar draws ystod o sectorau diwylliannol ac ardaloedd daearyddol. I'r perwyl hwn, roedd y sampl o sefydliadau yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau masnachol, elusennol, dielw a'r rhai sy'n cael arian refeniw, gyda chylch gwaith naill ai ar lefel awdurdod lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Mae Tabl 2.1 yn rhoi dadansoddiad o'r sampl fesul ffynhonnell ariannu a chylch gwaith daearyddol. Roedd pump o blith y 10 o sefydliadau a samplwyd wedi cymryd rhan ym mlwyddyn beilot gychwynnol y rhaglen Ardaloedd Arloesi. Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o sefydliadau a oedd wedi bod yn gysylltiedig â Phartneriaeth Cyfuno i amrywiol raddau. Er enghraifft, roedd rhai sefydliadau wedi cyflwyno gweithgareddau, roedd eraill ond wedi

mynychu cyfarfodydd rhwydweithio, ac roedd yn hysbys bod eraill yn cael anhawster o ran ymgysylltu â'u partneriaethau perthnasol. Y nod oedd cael amrywiaeth o safbwyntiau gan randdeiliaid. Ni chafodd swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn cymryd rhan mewn Ardaloedd Arloesi eu cynnwys yn yr ymchwil.

2.6 Dewiswyd y sampl o restr o randdeiliaid a oedd yn cynnwys sampl yr arolwg (gweler Adran 2.4). Anfonwyd e-bost at y rhai a ddewiswyd i'w cyfweld yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cytunodd pob un o'r deg rhanddeiliad a ddewiswyd yn wreiddiol ar gyfer cyfweliad i gymryd rhan yn yr ymchwil.

**Tabl 2.1: Dadansoddiad o'r sampl**

Nifer y cyfweleion

| | **Ffynhonnell y cyllid** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cylch gwaith** | ALI | Masnachol | Elusen | Nid er elw |
| Cenedlaethol | | | 1 | |
| Rhanbarthol | 2 | 1 | | |
| Mewn ALI | 3* | 1 | 1 | 1 |

** Mae dau o'r 3 sefydliad hyn yn teithio'n genedlaethol a hefyd yn derbyn cyllid refeniw*

**Arolwg**

2.7 Anfonodd un o ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r rhanddeiliaid a samplwyd i gymryd rhan yn yr arolwg, ochr yn ochr â dolen i'r arolwg ar-lein, drwy e-bost ar 27 Chwefror 2017. Anfonwyd e-bost i'w hatgoffa ar 28 a 30 Mawrth 2017. Daeth yr arolwg i ben ar 31 Mawrth 2017.

2.8 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar bynciau'n ymwneud ag agweddau tuag at y rhaglen Partneriaeth Cyfuno, ei gwaddol, unrhyw fanteision, heriau a ffactorau llwyddiant allweddol. Mae rhestr lawn o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg i'w gweld mewn copi o'r holiadur, yn **Atodiad D**.

### Cyfansoddiad yr ymatebwyr i'r arolwg

2.9 O ran cyfansoddiad y ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, nododd y nifer fwyaf o ymatebwyr eu bod yn rhan o bartneriaeth Torfaen (n. 15 o blith sampl arolwg o n. 24) neu Gaerdydd (n. 14 o blith sampl arolwg o n. 38). Nododd y nifer leiaf o ymatebwyr eu bod yn rhan o bartneriaethau Wrecsam (n. 2 o blith sampl arolwg o 14) neu Wynedd (n. 4 o blith sampl arolwg o 10) . Er mwyn rhoi syniad o gwmpas ymatebion yr arolwg, mae'r cyfanswm o 64 o ymatebion wedi'u dadansoddi fesul Partneriaeth Cyfuno yn Nhabl 2.2, isod. Roedd rhai ymatebwyr wedi gweithio ar draws mwy nag un Bartneriaeth Fusion, felly pam y mae cyfanswm at fwy na nifer yr ymatebion

**Tabl 2.2: Cyfansoddiad yr ymatebwyr i'r arolwg**

| Partneriaeth Cyfuno | Nifer yr ymatebwyr | Sampl |
|---|---:|---:|
| Abertawe | 10 | 39 |
| Caerdydd a Merthyr Tudful | 14 | 11 |
| Caerffili | 11 | 11 |
| Casnewydd | 6 | 11 |
| Conwy | 11 | 37 |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 37 |
| Gwynedd | 4 | 10 |
| Sir y Fflint | 10 | 26 |
| Torfaen | 15 | 24 |
| Wrecsam | 2 | 14 |

2.10 Roedd ychydig dros hanner (n = 34 o ymatebwyr) yn cynrychioli sefydliad a oedd wedi cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno yn ystod blwyddyn beilot gychwynnol y rhaglen Cyfuno.

**Cyfweliadau**

2.11 Cynhaliodd ymchwilydd cymdeithasol Llywodraeth Cymru 10 cyfweliad rhwng 28 Ebrill a 15 Mai 2017. Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn. Cynigiwyd yr opsiwn i randdeiliaid gymryd rhan yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhaliwyd pob cyfweliad drwy gyfrwng y Saesneg. Amrywiodd hyd y cyfweliadau o 25 i 60 munud. Cafodd yr holl gyfweliadau eu recordio, a gofynwyd am gydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr holl gyfranogwyr.

2.12 Datblygwyd canllaw cyfweld lled-strwythuredig (gweler **Atodiad E**). Nodir y meysydd a gwmpesir yn y cyfweliad yn y canllaw ac aethpwyd o dan groen yr ymatebion er mwyn cael gwell dealltwriaeth o farn a phrofiadau rhanddeiliaid. I grynhoi, roedd y pynciau a nodwyd i'w cynnwys yn y cyfweliad yn cynnwys:

- Rôl y sefydliadau diwylliannol o ran trechu tlodi
- Yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn y gellid ei wella am y rhaglen Ardaloedd Arloesi
- Effaith y rhaglen ar ffyrdd rhanddeiliaid o weithio
- Effeithiolrwydd y rhaglen
- Manteision a heriau cymryd rhan yn y rhaglen

2.13 Cafodd y cwestiynau eu teilwra yn ôl yr angen yn ystod y cyfweliad â rhanddeiliaid yn dibynnu ar natur a lefel eu hymwneud â'r rhaglen Ardaloedd Arloesi, i ganolbwyntio ar eu profiadau unigol.

**Dadansoddiad**

2.14 Cafodd yr arolwg ei lawrlwytho o'r feddalwedd arolwg ar-lein Questback i Microsoft Excel i'w ddadansoddi. Trafodir themâu a chanlyniadau'r arolwg yn yr adroddiad hwn ac mae siartiau wedi'u cynnwys yn y drafodaeth i amlygu'r prif ganfyddiadau.

2.15 Cafodd cyfweliadau eu trawsgrifio air am air a'u trosglwyddo i feddalwedd dadansoddi ansoddol MAXQDA, lle y datblygwyd system godio yn seiliedig ar gyfuniad o'r pynciau a drafodir yn ystod cam arolwg y dadansoddiad a'r canllaw cyfweld a'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r data. Mae'r themâu a'r is-themâu yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn ac mae esiamplau o ddyfyniadau wedi cael eu cynnwys i egluro pwyntiau allweddol.

**Cyfyngiadau**

2.16 Fel y nodwyd yn gynharach, casglwyd data gan ddefnyddio arolwg ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid diwylliannol a oedd yn cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Yn ogystal â manteision fodd bynnag, mae anfanteision i ddefnyddio'r dulliau hyn hefyd, ac mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i'r ymchwil o ganlyniad. O ran yr arolwg ar-lein, mae'r ymchwil yn agored i broblemau samplo. Roedd sampl yr arolwg yn dibynnu ar y manylion a ddarparwyd gan Fyrddau Cyflawni Arweiniol. Mae'r canlyniadau'n rhoi cipolwg ar un pwynt mewn amser o blith grŵp o ymatebwyr a hunan-ddewiswyd. Yn ogystal, cafwyd niferoedd cymharol fach o ymatebion i'r arolwg. Ynghyd â nifer fach iawn o ymatebion i rai o'r cwestiynau, mae'r gyfradd ymateb isel yn golygu bod angen bod yn ofalus i beidio â rhoi gormod o bwyslais ar ganfyddiadau'r arolwg. Er enghraifft, efallai y bydd barn ac atebion yr ymatebwyr yn wahanol i atebion y rhai na wnaethant ymateb i'r arolwg. Mae'r cyfyngiadau hyn yn atal y gallu i gyffredinoli ynghylch canlyniadau'r arolwg, ac o ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth eu dehongli. Dangosol yw'r canfyddiadau ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn yr holl randdeiliaid.

2.17 Gyda'r cyfweliadau lled-strwythuredig, roedd y ffocws ar ddeall canfyddiadau sefydliadau diwylliannol. Gan fod y pwyslais ar gasglu data at ddibenion cymharol, datblygwyd canllaw ar gyfer cyfweliadau. Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer cwestiynau treiddgar; fodd bynnag, cymerwyd gofal i sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfleu eu barn yn annibynnol ar farn yr ymchwilydd. Roedd hyn yn golygu osgoi defnyddio cwestiynau arweiniol. Yn ogystal, oherwydd amserlen yr ymchwil, cynhaliwyd y cyfweliadau dros y ffôn, felly nid oedd yn bosibl creu perthynas gyda'r cyfweleion i'r graddau y mae'n bosibl mewn cyfweliad wyneb-yn-wyneb.

## 3 Canfyddiadau o'r arolwg a'r cyfweliadau

3.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ansoddol. Cafwyd cyfanswm o 64 o ymatebion i'r arolwg. Fodd bynnag, nid oedd pob cwestiwn yn yr arolwg yn orfodol. O ganlyniad nid yw pob un o ganlyniadau'r arolwg ar gyfer cwestiynau unigol yn adio i gyfradd ymateb gyffredinol yr arolwg, sef 64 o ymatebwyr. Er eglurder, nodir cyfanswm nifer yr ymatebion i gwestiwn penodol yn llawn pan fydd y canfyddiadau'n cael eu trafod. Cynhaliwyd deg cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliad sy'n cynrychioli sefydliad diwylliannol o bob un o'r 10 Partneriaeth Cyfuno. Dadansoddwyd canfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliad ar wahân fel dwy dasg wahanol, a daethpwyd â'r canlyniadau ynghyd i ffurfio'r drafodaeth a gyflwynir yn y bennod hon. Yn y drafodaeth hon am y canfyddiadau, cyfeirir at y bobl a ymatebodd i'r arolwg ar-lein fel 'ymatebwyr' yr arolwg, ac ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig, cyfeirir at y rhai a gafodd eu cyfweld fel 'cyfweleion'.

3.2 Mae ffocws penodol ar Bartneriaethau Cyfuno Caerffili, Gwynedd a Chasnewydd yn yr astudiaethau achos yn **Atodiad F**.

### Dealltwriaeth o'r dull Cyfuno

*Nodau ac amcanion y rhaglen Cyfuno*

3.3 Cyflwynodd y cyfweliadau lled-strwythuredig gyfle i ymchwilio i ddealltwriaeth o nodau ac amcanion y rhaglen Cyfuno ymhlith sefydliadau diwylliannol. Roedd dealltwriaeth gadarn o amcanion y rhaglen Cyfuno. Nododd y cyfweleion fod trechu tlodi wrth wraidd y rhaglen a'r ffyrdd cydweithredol o weithio y mae'n ceisio eu hannog rhwng sefydliadau diwylliannol, gwasanaethau awdurdodau lleol ac asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig. Ystyriwyd bod y rhaglen wedi'i hanelu at hwyluso dull mwy amlasiantaethol, cydlynol. I'r perwyl hwn, fe'i disgrifiwyd fel rhaglen sy'n ymwneud â datblygu partneriaethau rhwng rhanddeiliaid a dull mwy cydgysylltiedig a strategol o ddarparu gweithgareddau. Ystyriwyd bod Cyfuno yn ymwneud ag ehangu mynediad drwy wneud gweithgareddau

diwylliannol yn fwy hygyrch a thrwy greu neu gynyddu faint o gyfleoedd sydd ar gael i bobl gymryd rhan a rhoi cynnig ar brofiadau newydd. Gwelwyd hyn fel diben ynddo'i hun gan rai o'r cyfweleion, tra y cyfeiriodd eraill at ganlyniadau addysgol, iechyd neu gyflogaeth fel amcanion allweddol y rhaglen. Roedd y cyfweleion yn gadarnhaol iawn am ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dull o drechu tlodi a oedd yn annog cyfranogiad diwylliannol ymhlith unigolion o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Fodd bynnag, o ran sut y gweithiodd y dull hwn yn ymarferol, roedd y farn yn fwy amrywiol. Cyfeirir at y farn mewn gwahanol rannau o'r bennod hon.

*Cyfrifoldeb i drechu tlodi*

3.4 Roedd mwyafrif o naw o'r cyfweleion yn teimlo bod gan sefydliadau diwylliannol gyfrifoldeb i chwarae eu rhan mewn trechu tlodi. Roedd atebion y mwyafrif yn ymwneud ag ystyriaethau anhunanol, ac ystyriwyd darparu cyfleoedd diwylliannol i grwpiau mwy anodd eu cyrraedd yn gam cywir cynhenid i'w gymryd oherwydd dylai pawb allu cael mynediad i ddiwylliant. Ystyriwyd bod gan sefydliadau diwylliannol gyfrifoldeb cymdeithasol i sicrhau bod diwylliant ar gael i bawb, fel bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau beth bynnag eu cefndir neu ble bynnag y maent yn byw. Cyfeiriodd rhai o'r cyfweleion at adroddiad Andrews, a dywedodd nifer oherwydd bod eu sefydliad yn cael arian cyhoeddus bod ganddynt gyfrifoldeb cymdeithasol i gyrraedd pob aelod o'r gymdeithas gyda'u rhaglenni. Nodwyd ymgysylltu â chynulleidfaoedd 'anodd eu cyrraedd' er mwyn iddynt gael mynediad i adnoddau diwylliannol a threftadaeth a helpu neu rymuso pobl i weld eu cymunedau mewn ffyrdd newydd hefyd fel cyfrifoldebau gan rai o'r cyfweleion:

*"...oherwydd ein bod yn cael arian cyhoeddus, ac am fy mod yn credu ei fod yn gyfrifoldeb cymdeithasol... mae gennym gyfrifoldeb, a dylem fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pawb yn cael cyfle... mae'n gwbl briodol y dylem fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd a chwalu rhwystrau i bobl allu cael mynediad i'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol."*

*"Mae gennym drysorau hanesyddol, ac mae angen inni fod yn agored i'r gymuned... rydym yn guraduron mannau arbennig iawn, ac mae gwneud cyfraniad i'r gymuned er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys yn beth da."*

*"Mae ein gwasanaethau yno i gael eu defnyddio gan bawb, yn gyffredinol. Ceir canfyddiad bod amgueddfeydd yn lleoedd ar gyfer y dosbarth canol a'r academyddion, ac mae gennym gyfrifoldeb fel sefydliad diwylliannol i geisio ymgysylltu â chynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd."*

3.5 I'r gwrthwyneb, dadleuodd un o'r cyfweleion y dylai ymyriadau artistig gael eu hanelu at bob unigolyn, nid dim ond y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd; ond cydnabyddir bod angen ymgysylltu ag unigolion o fewn yr ardaloedd hyn:

*"[Mae'r] Dylai'r celfyddydau fod i bawb. Ni ddylem fod yn dweud "wel, allwn ni ond ei ddefnyddio yno ar gyfer pobl sydd mewn ardaloedd o amddifadedd", ond ar yr un pryd, mae gan y bobl hynny yr hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol a chymryd rhan yn y ddeialog honno; y math hwnnw o ehangu mynediad, ehangu gorwelion. "*

3.6 Nid oedd un o'r cyfweleion yn credu bod gan sefydliadau diwylliannol gyfrifoldeb sylfaenol i helpu i fynd i'r afael â thlodi. Yn lle hynny, yn eu barn hwy, roedd yn dibynnu ar ar p'un a yw'r sefydliad wedi cael ei sefydlu fel menter fasnachol bur, sydd â'r nod o wneud elw. Fodd bynnag, pwysleisiodd y cyfweliad hwn y gwerth ychwanegol a symbiotig

sy'n deillio o sefydliadau diwylliannol yn gallu creu cysylltiadau newydd gyda gwahanol gynulleidfaoedd, beth bynnag fo statws proffesiynol y sefydliad hwnnw. Mae hyn yn cael ei weld fel mantais i'r sefydliadau sy'n gweithio o fewn cymunedau difreintiedig ac i'r rhai sy'n cymryd rhan yn eu gweithgareddau:

*"Nid wyf yn credu bod ganddynt [sefydliadau diwylliannol] gyfrifoldeb... mae rhai yn bodoli dim ond er mwyn darparu adloniant a gwneud arian iddyn nhw eu hunain fel sefydliad, ac mae rhai yn ei weld mewn ffyrdd eraill. [Fodd bynnag] mae gan lawer o sefydliadau bellach gysylltiadau cymunedol am eu bod yn deall gwerth cyfranogiad cymunedol. Ac mae'n mynd rownd mewn cylch... rydych yn helpu pobl ac yn eu cefnogi, ac efallai y byddan nhw'n dod i weld eich sioeau ac effaith eich gwaith, ac yna byddwch yn mynd yn ôl i'r gymuned ac yn eu cefnogi."*

**Cymhelliant i gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno**


3.7 Roedd yr arolwg a'r cyfweliadau yn cynnwys nifer o gwestiynau sydd wedi'u hanelu at ymchwilio i gymhellion dros gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein ddewis o restr o opsiynau ymateb y tri prif reswm "pam y dewisodd eu sefydliad gymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyfuno". Caiff y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn eu crynhoi isod a'u dangos yn Siart 1.1.

- *Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol*
  O bell ffordd, yr un ymateb a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (n = 55) oedd ehangu mynediad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol.

- *Gwella galluoedd pobl*
  Roedd clwstwr o ymatebion i'r arolwg (n=64) ynglŷn â'r cymhellion dros gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno yn canolbwyntio ar yr awydd i wella galluoedd pobl, sef: datblygu diddordebau a sgiliau pobl (n=35); datblygu hyder pobl (n=24); a chefnogi pobl i ennill cymhwyster achrededig (n=5).

- *Cyfleoedd ar gyfer y sefydliad*
  Roedd clwstwr arall o ymatebion i'r arolwg (n=54) mewn perthynas â'r rhesymau dros gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno yn canolbwyntio ar gyfleoedd i'r sefydliad, sef: cyfle i'r sefydliad weithio gyda grwpiau newydd (n=26); a chyfle i weithio gyda chymunedau newydd (n=28).

3.8 Ni ddewisodd yr un ymatebydd yr ymateb bod "eu sefydliad wedi dewis cymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyfuno" er mwyn bodloni gofynion cyllido. Fodd bynnag, nododd un o'r pedwar ymateb penagored a dderbyniwyd i'r opsiwn ymateb eraill bod cyfranogiad ei sefydliad yn "ofynnol".




3.9 Yn y cyfweliadau lled-strwythuredig, pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol am eu prif reswm dros ymuno â rhwydwaith Partneriaeth Cyfuno, roedd atebion y rhan fwyaf o'r cyfweleion yn canolbwyntio ar gyfleoedd i rannu profiadau a chlywed arferion gorau yn y cyfarfodydd rhwydweithio. Yn ail agos i hyn roedd y posibilrwydd o ddarganfod cyfleoedd i weithio gyda grwpiau newydd ac mewn cymunedau gwahanol. I raddau llai, cafodd y cyfle i gydweithio â sefydliadau eraill ar gynllunio a chyflawni prosiectau ei ddisgrifio fel rheswm dros gymryd rhan yn eu Partneriaethau Cyfuno perthnasol. Disgrifiodd un o'r cyfweleion ei reswm mewn termau anhunanol, sef "gwneud cyfraniad at y gymuned".

3.10 Roedd ambell un o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo mai un o'r prif fanteision yn sgil y dull Partneriaeth Cyfuno oedd y cyfle i rwydweithio â chymysgedd o randdeiliaid ar draws y sector diwylliannol, gwasanaethau awdurdodau lleol, a chydag asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithredu drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y cyfweleion hyn yn gwerthfawrogi cael y fforwm hwn i rannu syniadau, sgiliau ac arferion da, gan godi proffil eu sefydliad ar yr un pryd. Pan gafodd ei godi fel pwnc gan y cyfweleion, cafodd y mewnbwn gan sefydliadau eraill yn y cyfarfodydd ei bortreadu'n gadarnhaol.

*"... nid ydym wedi cynnal unrhyw weithgaredd penodol mewn gwirionedd... ond mae'n ymwneud yn fwy â phobl sy'n gweithio ac yn rhannu arferion da tebyg, y math yna o beth... mae'n ymwneud â rhannu sgiliau, cefnogi mudiadau, rhannu gwybodaeth, gwneud cyrff yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n bodoli yn y lleoliad hwn, ac nid wyf yn credu y byddem wedi gallu gwneud hynny heb y bartneriaeth Cyfuno."*

*"Rydym yn mynychu'r cyfarfodydd partneriaeth ac yn dod â'n hymarfer gyda ni, ac yn rhannu hynny gydag aelodau'r bartneriaeth yno. Rwy'n cael cyfle i ddysgu oddi wrth eraill o amgylch y bwrdd, ond gobeithio eu bod hwythau wedi gallu dysgu rhywbeth oddi wrthym [ni] hefyd."*

*"Rydym yn awyddus i gael llais....mae bob amser yn beth da cael eich proffil yno er mwyn i chi weithio gyda'r rhwydwaith, gweithio gyda'r partneriaid sydd yn yr [ardal]."*

3.11 Roedd rhai sefydliadau diwylliannol wedi bod yn ymgysylltu â chymunedau targed cyn lansio Cyfuno, a chanfuwyd bod y Bartneriaeth Cyfuno yn gyfle i gryfhau'r cysylltiadau presennol gyda sefydliadau a gwneud rhai newydd.

*"...i ni roedd yn ymwneud yn bennaf â cheisio gweld pa fath o bartneriaethau newydd y gallem eu creu a cheisio targedu cynulleidfaoedd newydd mewn gwirionedd, dyna'r ddau brif reswm."*

3.12 O safbwynt un o'r cyfweleion, roedd y rhwydwaith Cyfuno yn darparu cyfleoedd i dargedu cynulleidfaoedd newydd 'anhraddodiadol' a grwpiau mwy anodd eu cyrraedd ar y cyd â chyrff eraill:

*"...mae'n ffordd dda o gael mynediad i'n cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, a gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n cyflwyno cynigion i'r cynulleidfaoedd hyn yn ogystal... rydym yn gweithio tuag at yr un canlyniadau."*

**Ffyrdd o weithio**

3.13 Roedd yr arolwg a'r cyfweliadau yn cynnwys nifer o gwestiynau a oedd wedi'u hanelu at ymchwilio i newidiadau tybiedig i ffyrdd o weithio, o ganlyniad i'r dull Partneriaeth Cyfuno.

*Cydweithio*


3.14 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg fyfyrio ar y ffyrdd o gydweithio y mae'r rhaglen Cyfuno yn ceisio eu meithrin. Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau ar i ba raddau yr oedd yr ymatebydd yn cydweithio â gwahanol grwpiau o randdeiliaid, sef:

- pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig;
- sefydliadau diwylliannol eraill;
- awdurdodau lleol; ac
- asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig.

3.15 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn ar i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod eu sefydliad. o ganlyniad i'r dull Partneriaeth Cyfuno, yn "targedu gweithgareddau'n fwy effeithiol at bobl sy'n dioddef tlodi". Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (n=46), sy'n cyfrif am 72% o'r ymatebion, naill ai'n *cytuno'n gryf* (n=21) neu'n *cytuno* (n=25) â'r datganiad hwn. Dywedodd un ar ddeg o'r ymatebwyr (17%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno*, dim ond cyfran fach o'r pum ymatebydd oedd yn *anghytuno* â'r datganiad, ac nid oedd yr un ymatebydd yn *anghytuno'n gryf*. Roedd llai o bolaredd ar draws yr ystod

o opsiynau ymateb gyda'r cwestiwn hwn na chyda rhai o'r cwestiynau eraill yn yr arolwg. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn uniaethu â'r honiad bod eu sefydliad yn targedu ei weithgareddau'n fwy effeithiol at y bobl sy'n dioddef tlodi o ganlyniad i Cyfuno.

3.16 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hefyd ynglŷn ag i ba raddau yr oedd eu sefydliadau'n cydweithio ar gynllunio gweithgareddau gyda phobl sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, yn cynnwys chwe deg saith y cant o'r ymatebion (n=44), naill ai'n *cytuno'n gryf* (n=20) neu'n *cytuno* (n=24) â'r datganiad bod eu sefydliad, ers cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno, yn "cydweithio'n fwy gyda phobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ar gynllunio gweithgareddau". Fodd bynnag, dywedodd mwy nag un o bob pump o'r ymatebwyr (n=15; 23%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad hwn. Yn ogystal, er gwaethaf y ffaith eu bod yn cynrychioli cyfran fechan o'r ymatebion i'r arolwg, roedd pedwar o'r ymatebwyr *yn anghytuno* â'r datganiad; ond ni ddewisodd yr un ymatebydd yr opsiwn *anghytuno'n gryf*. Felly, yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg yn dangos bod mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein yn teimlo eu bod, o ganlyniad i'r cyfleoedd a gyflwynir drwy'r Partneriaethau Cyfuno, wedi cydweithio i raddau mwy ar gyd-gynllunio ymyriadau diwylliannol gydag unigolion a grwpiau o gymunedau o amddifadedd. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn isod, yn Siart 1.2.




3.17 Pan ofynnwyd a oedd eu sefydliad yn "cydweithio'n fwy effeithiol â sefydliadau diwylliannol eraill" o ganlyniad i gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr naill ai'n *cytuno'n gryf* (n=25) neu'n *cytuno* (n=22), sy'n cyfrif am bron i dri chwarter (73%) yr ymatebion. Dywedodd un rhan o bump o'r ymatebwyr (n=13; 20%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno*; dim ond tri o'r ymatebwyr a oedd yn *anghytuno* ac nid oedd yr un ymatebydd yn *anghytuno'n gryf* â'r datganiad. Awgrymodd y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn fod y rhai a ymatebodd i'r arolwg, ar y cyfan, yn ystyried bod eu sefydliad yn cydweithio'n fwy effeithiol â sefydliadau diwylliannol eraill o ganlyniad i Cyfuno; unwaith eto, roedd llai o bolaredd ar draws yr ystod o opsiynau ymateb na gyda rhai o gwestiynau eraill yr arolwg.


3.18 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad bod eu sefydliad "yn cydweithio tua'r un faint ag awdurdodau lleol" o ganlyniad i'r Bartneriaeth Cyfuno. Roedd y mwyafrif (n=36; 56%) o ymatebwyr naill ai'n *cytuno'n gryf* (n=15) neu'n *cytuno* (n=21) bod eu sefydliad yn cydweithio tua'r un faint gydag awdurdodau lleol. Dim ond tri ymatebydd a oedd yn *anghytuno* â'r datganiad, ac nid oedd unrhyw ymatebydd yn *anghytuno'n gryf*. Dywedodd pedwar ar hugain o ymatebwyr (38%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad hwn, gan awgrymu efallai nad oedd y cwestiwn hwn yn

berthnasol i rai ymatebwyr. Efallai fod hyn oherwydd bod y sampl yn yr arolwg a nodwyd gan Fyrddau Cyflawni Arweiniol yn cynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol, megis llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd, sy'n cael eu dosbarthu fel sefydliadau diwylliannol.

3.19 Mae tystiolaeth hefyd o'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau ansoddol bod rhai Partneriaethau Cyfuno wedi cryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau diwylliannol ac asiantaethau cymunedol lleol â chanddynt gylch gwaith i drechu tlodi. Pwysleisiodd rhai o'r cyfweleion y dylid cynnal gweithgareddau mewn partneriaeth ag asiantaethau sydd eisoes yn gweithio mewn cymunedau difreintiedig:

*"...mae problemau posibl yn gysylltiedig â gwneud pethau dim ond oherwydd bod gennych arian ar gyfer prosiect, a gallwch gael arian ar gyfer prosiectau i weithio yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, felly mae'n rhaid i chi fod ychydig yn ofalus ynglŷn â pham mae prosiectau'n cael eu cynnal. Dyna pam rwy'n credu mai gwneud pethau ar y cyd, gyda chorff sefydledig fel Cymunedau yn Gyntaf yw'r ffordd y dylai'r partneriaethau hynny gael eu creu."*


3.20 Fel rhan o'r arolwg ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu sefydliad yn "cydweithio'n fwy effeithiol ag asiantaethau cymunedol lleol sy’n gweithio o fewn cymunedau difreintiedig" o ganlyniad i’r Bartneriaeth Cyfuno. Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (n=50) eu bod yn gwneud hynny (*cytuno'n gryf*, n=22; *cytuno*, n=28). Amlinellir hyn yn Siart 1.3, sydd hefyd yn dangos o blith cyfanswm yr ymatebion a gafwyd i'r datganiad hwn (n=62), bod 11 o ymatebwyr (17%) yn dweud *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno*, bod dau o'r ymatebwyr yn *anghytuno* a dim ymatebydd yn *anghytuno'n gryf* â'r datganiad hwn.




*Newid y canfyddiadau o ddiwylliant*

3.21 Roedd dros hanner, neu 55% o'r ymatebwyr i'r arolwg (n=35), naill ai'n *anghytuno* (n=24) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=11) â'r datganiad "nid yw dealltwriaeth awdurdodau lleol o werth diwylliant wedi gwella" ers y Bartneriaeth Cyfuno. Roedd 19% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (n=12) naill ai'n *cytuno* (n=9) neu'n *cytuno'n gryf* (n=3) â'r datganiad a dywedodd chwarter yr ymatebwyr (n=16) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno*. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr felly nad oedd gan awdurdodau lleol well dealltwriaeth o werth diwylliant o ganlyniad i Bartneriaethau Cyfuno.

3.22 Roedd 78% o'r ymatebwyr (n=50) naill ai'n *cytuno* (n=41) neu'n *cytuno'n gryf* (n=9) â'r datganiad bod "gweithgareddau diwylliannol yn cael eu hystyried mewn modd mwy positif gan sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi" ers y Bartneriaeth Cyfuno. Dywedodd un ar ddeg o ymatebwyr (13%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad hwn, ond dim ond dau o'r ymatebwyr (yn cynrychioli 3% o ymatebwyr yr arolwg) a oedd yn *anghytuno* (n=1) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=1) â'r datganiad hwn. Dangosir y canlyniadau hyn yn Siart 1.4, isod.




3.23 Roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (66%; n=42) yn *anghytuno* (n=22) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=20) â'r datganiad "nid oes gan fy sefydliad well dealltwriaeth o rôl diwylliant mewn trechu tlodi" ers cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Mae hyn yn dangos felly ar gyfer yr ymatebwyr hyn, mai un o ganlyniadau cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno oedd bod gan eu sefydliad well dealltwriaeth o rôl diwylliant mewn trechu tlodi. Dim ond chwech o ymatebwyr (sy'n cyfrif am ddim ond 9% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) a oedd yn *cytuno* (n=5) neu'n *cytuno'n gryf* (n=1) â'r datganiad hwn.

**Manteision**

3.24 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â manteision tybiedig y dull Partneriaeth Cyfuno o bersbectif y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil.

3.25 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r i'r arolwg ar-lein ac i'r cyfweleion beth oedd y prif fanteision yn sgil cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno, os oedd manteision o gwbl. Yn y cyfweliad, gofynnwyd hefyd beth oedd prif fanteision cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno i'r grwpiau canlynol o randdeiliaid allweddol:

- sefydliadau diwylliannol;
- unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a gefnogir gan Cyfuno;
- asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig;
- gwasanaethau awdurdodau lleol.

3.26 Datgelodd dadansoddiad o ganfyddiadau'r cyfweliadau yr ystyriwyd bod manteision y Partneriaethau Cyfuno i raddau helaeth yn gwrthbwyso unrhyw heriau.

*Manteision i sefydliadau diwylliannol*

3.27 O ran y cyfweleion, nodwyd nifer o fanteision i'w priod sefydliadau. Er na ddaeth yr un fantais allweddol gyffredinol i'r amlwg yn arbennig o gryf yn y cyfweliadau, roedd y prif themâu a gododd yn canolbwyntio ar:

- ddatblygu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng eu sefydliad diwylliannol a sefydliadau rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys gyda rhanddeiliaid y tu allan i'r sector diwylliannol;
- codi proffil eu sefydliad diwylliannol â rhanddeiliaid eraill;
- targedu cynulleidfaoedd newydd sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd ac ymgysylltu â hwy.

3.28 Yn ogystal, nododd nifer o'r cyfweleion fod y Partneriaethau Cyfuno wedi eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau awdurdodau lleol ac asiantaethau cymunedol lleol sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau difreintiedig yn gweithio. O ganlyniad i gymryd rhan yn y bartneriaeth, dywedodd y cyfweleion fod ganddynt well dealltwriaeth o sut y mae sefydliadau sy'n cefnogi trechu tlodi yn gweithredu.

3.29 Dywedodd rhai o'r cyfweleion fod y Partneriaethau Cyfuno wedi darparu cyfleoedd i weithio ar nodau cyffredin gyda rhanddeiliaid diwylliannol, awdurdodau lleol ac asiantaethau cymunedol lleol eraill sy'n gweithredu o fewn eu cylch gwaith daearyddol. Ar gyfer y cyfweleion hyn, mae'r dull

wedi eu galluogi i werthfawrogi'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau a wynebir gan y rhanddeiliaid eraill hyn sy'n gweithredu o fewn eu priod bartneriaethau.

*"...y prif fanteision yw cysylltu â'r cynlleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd, cael gwell dealltwriaeth ohonynt, o'u hanghenion, cyfle i weithio gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio tuag at yr un targed, gan rannu arferion gorau; mae llawer o fanteision mewn gwirionedd."*

*"...cael mynediad i Cymunedau yn Gyntaf yn y ffordd [Partneriaeth Cyfuno] honno, a bod yn ymwybodol o'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni a sut y gallwn eu helpu i wneud hynny, a lle y gallem eu helpu i wneud hynny. Rwy'n credu bod hynny'n ddefnyddiol iawn."*

*"Mae wedi ein helpu ni i gysylltu â sefydliadau nad ydynt yn sefydliadau celfyddydol neu gyrff cymunedol na fyddem wedi cysylltu â hwy yn y gorffennol o bosibl."*

3.30 Dywedodd ambell gyfwelai ei fod wedi adeiladu perthynas gyda sefydliadau yr oedd yn fwy anodd cael mynediad iddynt yn draddodiadol gan fod ganddynt ddyletswydd gofal tuag at eu cyfranogwyr (er enghraifft, ysgolion; i unedau cyfeirio ieuenctid). Yn ôl y cyfweleion, roeddent wedi cyflwyno gweithgareddau i gynulleidfaoedd newydd 'mwy anodd eu cyrraedd' o ganlyniad i gychwyn sgyrsiau a datblygu prosiectau ar y cyd â cheidwaid yr oeddent wedi'u cyfarfod drwy Bartneriaethau Cyfuno:

*"O ran y cyfranogwyr yr wyf wedi gweithio â nhw, ni fyddwn wedi gweithio â nhw fwy na thebyg oni bai fy mod wedi mynd i gyfarfod Partneriaeth Cyfuno. O ganlyniad, mae 14 o bobl ifanc o [sefydliad] wedi ennill cymhwyster Gwobr Celfyddydau Lefel Efydd o ganlyniad uniongyrchol i mi gysylltu â phobl yn y Bartneriaeth Cyfuno. Dyna enghraifft benodol iawn. Mae eu hadborth wedi bod yn hynod gadarnhaol."*
*"Gyda'r ysgolion ... mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ceisio ei wneud i drechu tlodi a sut y maent yn ei chael hi'n anodd*

*gwneud hynny. Rydym wedi adeiladu ar y berthynas felly maent yn teimlo'n hyderus i rannu gyda ni... gallwn gael dealltwriaeth well o'n [cyfranogwyr] drwy weithio gydag ysgolion, felly mae hynny wedi bod o fudd i ni."*

3.31 I raddau llai, nodwyd nifer o fanteision eraill gan y cyfweleion. Er enghraifft, pwysleisiodd un cyfwelai fod y cyfranogwyr yn dychwelyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol o ganlyniad i ymgysylltu â grwpiau 'mwy anodd eu cyrraedd' drwy'r Bartneriaeth Cyfuno:

*"... mae wedi bod yn wych er mwyn inni gysylltu â'r cynulleidfaoedd hynny sy'n anodd eu cyrraedd. Rydym yn gwybod bod pobl wedi dychwelyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill ar ôl ein sesiynau."*

3.32 Mantais arall a nodwyd gan sawl cyfwelai oedd y cyfle i ddenu cymorth ychwanegol o ganlyniad i'r ffaith bod eu sefydliad yn cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Er enghraifft, dywedodd un cyfwelai fod y gefnogaeth a gafodd ei sefydliad drwy Bartneriaeth Cyfuno yn allweddol i'w gais llwyddiannus am gyllid gan gorff sy'n dosbarthu grantiau yn y DU. Roedd y cyllid wedi cynyddu gallu sefydliad y cyfwelai hwn i ddarparu prosiectau, gan gyfrannu tuag at eu dyheadau creadigol tymor hwy o ganlyniad:

*"...y peth am y prosiect [Cyfuno] cyntaf hwnnw oedd pan gawsom lythyr o gefnogaeth ar gyfer ein cais [am grant] gan Cymunedau yn Gyntaf ac rwy'n credu bod cael y gefnogaeth honno ar lawr gwlad ar gyfer y prosiect wedi helpu o ran cael y cyllid hwnnw... Mae wedi cynyddu ein gallu yn sylweddol."*

3.33 O ran cyfwelai arall, roedd y Bartneriaeth Cyfuno wedi arwain at gyfleoedd i rannu arferion gorau gyda chynulleidfa broffesiynol ehangach. Efallai na fyddai'r cyfle hwn wedi codi fel arall:

*"Rydym hefyd, drwy'r prosiectau a wnaethom, wedi cael cyfleoedd eraill. Rydym wedi cael cyfle i rannu ein gwaith yn llawer ehangach - ar draws y DU ac yn rhyngwladol drwy [gymdeithas genedlaethol], ac wedi cael cyfle i siarad mewn [cynhadledd genedlaethol] yn ddiweddar. Felly, mae'r holl bethau hyn yn gysylltiedig â'r prosiect hwnnw, na fyddai wedi digwydd o bosibl heb y rhaglen Cyfuno."*

*Manteision i unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a gefnogir gan Cyfuno*

3.34 Yn ogystal â manteision i'w sefydliad diwylliannol, nododd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fanteision i unigolion sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol a hwyluswyd drwy eu priod Bartneriaethau Cyfuno.

3.35 Ar y cyfan, roedd y manteision a nodwyd gan gyfweleion yn sgil gweithgareddau a gefnogir gan Cyfuno yn canolbwyntio ar:

- chwalu rhwystrau a chamsyniadau unigolion yn ymwneud â chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a mynychu digwyddiadau diwylliant a threftadaeth;
- darparu profiadau a chyfleoedd newydd i gyfranogwyr;
- ennyn ymdeimlad o berchnogaeth a hawl mynediad i'r unigolion hyn, y mae'r cyfweleion yn ystyried bod llawer ohonynt yn cael mynediad i'r adnoddau diwylliannol sydd ar gael am y tro cyntaf.

3.36 Disgrifiodd ychydig o'r rhai a gyfwelwyd sut yr oedd y gweithgareddau a gynigir yn annog teuluoedd i fynychu digwyddiadau diwylliannol yn seiliedig ar ddigwyddiadau dysgu'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a chymryd rhan ynddynt:

*"...o edrych yn ôl ar y [Gweithgaredd Cyfuno], roedd yn brosiect da nid yn unig o ran denu'r plant ifanc, ond cael y rhieni a'r teuluoedd i gymryd rhan hefyd. Yn sgil hynny roeddem eisiau ehangu a datblygu prosiectau newydd, gan fod y teuluoedd yn credu bod yr holl broses yn gyffrous."*

Roedd un cyfwelai'n teimlo bod y gweithgareddau yr oedd ei sefydliad wedi'u cynllunio ar y cyd ag aelodau eraill o'r Bartneriaeth Cyfuno, a'u cyflwyno wedyn yn annibynnol, wedi cyfrannu tuag at brofiad dysgu teuluol cadarnhaol a oedd yn debygol o barhau:

*"...maent wedi cael profiad cyfoethog. Ni fyddai llawer ohonyn nhw wedi mentro drwy'r drws ac oni bai eu bod wedi cael eu gwthio i wneud hynny gan y [gweithgaredd] ni fyddent wedi dod yma ar eu pen eu hunain, ac unwaith maen nhw yma, mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cael profiad cadarnhaol iawn o'r amgueddfa. Felly mae'n meithrin eu hyder hefyd. Roeddem yn gallu cefnogi, gallant weld y potensial wrth ddefnyddio'r lle hwn i gynorthwyo eu plant gyda'u gwaith cartref os oes unrhyw beth yn ymwneud â hanes neu beth bynnag, ac roeddent yn teimlo'n ddigon hyderus i ddod yn ôl ar eu liwt ei hunain. Felly mae'n meithrin hyder, yn chwalu rhwystrau, gan ei gwneud yn fwy hygyrch iddyn nhw, gan deimlo bod croeso iddynt yma ar unrhyw adeg, gan y gall amgueddfa fod yn ofod brawychus."*

3.37 I'r cyfwelai hwn, roedd y gweithgareddau a gynigwyd yn helpu i feithrin sgiliau meddal; yn yr achos hwn, meithrin hyder rhieni i gefnogi addysgu eu plant yn yr ysgol. Roedd datblygu sgiliau meddal drwy gymryd rhan yng ngweithgareddau Cyfuno yn fantais ddigymell a nodwyd gan eraill a gyfwelwyd:

*"Mae'n ymwneud â dysgu llu o sgiliau neu atgyfnerthu pethau yr ydych yn eu dysgu amdanoch chi eich hun. Rwy'n credu bod hynny'n beth da iawn i unrhyw un sy'n cymryd rhan."*

3.38 Nododd cyfwelai arall hefyd yn benodol y gallai grymuso unigolion a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol a chanddynt brinder sgiliau allweddol sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig fod yn un o sgil-fanteision y rhaglen Cyfuno. Yn ôl y cyfwelai hwn, roedd y gweithgareddau a gefnogir drwy'r Bartneriaeth Cyfuno wedi ymgysylltu â grwpiau newydd, gan arwain at ddatblygu prosiectau dilynol sydd wedi'u bwriadu i gael eu cydgynhyrchu gyda chynulleidfaoedd targed:

*"Mae'n fater o ddod o hyd i'r prosiectau iawn, ac yna benderfynu ble i fynd nesaf. Felly mae'n golygu cyfeirio neu weithio gyda'r grŵp hwnnw a nodi beth yw'r anghenion gyda'r gymuned... mae gennym gymuned wirioneddol ddifreintiedig gyda phobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol heb lawer o sgiliau, a gallem wneud rhywbeth yn gysylltiedig â sgiliau llythrennedd nesaf er mwyn dilyn ymlaen... mae'n fater o "iawn, rydym wedi gwneud hyn, felly beth nesaf?", ac weithiau mae'n ymwneud â grymuso grwpiau ac maent yn gwneud rhywbeth eu hunain. Mae'n a wnelo â helpu pobl i helpu eu hunain."*

3.39 Dywedodd rhai cyfweleion mai cyfraniad arall y Partneriaethau Cyfuno oedd hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol yn fwy cyffredinol fel gweithgareddau "hwyliog" i gyfranogwyr, ac felly brofiadau a oedd yn rhoi boddhad ac yn cyfoethogi yn eu rhinwedd eu hunain, heb gyfeirio at fanteision ehangach posibl. Un awgrym cysylltiedig oedd bod rhai o'r gweithgareddau newydd a gynigir yn helpu i'r cyfranogwyr fabwysiadu agwedd newydd tuag at diwylliant neu bersbectif newydd arno:

*"... rhoi gweithgaredd gwahanol i bobl ei wneud; rhywbeth nad yw'n gysylltiedig â phethau eraill y gallent fod wedi'u gwneud o'r blaen sy'n rhoi cyfle i'r plant fod yn rhan o bethau na fyddent fel arfer yn ymwneud â nhw, yn enwedig os nad oes gennych gar.... roedd yn wych cyflwyno plant i rywbeth mor cŵl â'r iaith Gymraeg - eu diwylliant, a chyfleoedd newydd, a gweithgareddau hwyliog newydd nad ydynt yn hen ffasiwn o gwbl."*

3.40 Mae'r dyfyniad uchod hefyd yn helpu i dynnu sylw at thema arall a gododd yn ystod nifer o'r cyfweliadau: yr anawsterau i rai unigolion sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig gael mynediad corfforol i weithgareddau diwylliannol a lleoliadau diwylliant a threftadaeth. Mae hyn yn cael ei ystyried yn fwy manwl o dan y drafodaeth ar ganfyddiad y cyfweleion ac ymatebwyr yr arolwg ar-lein o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r dull Cyfuno.

*Manteision i wasanaethau awdurdodau lleol*

3.41 Roedd pob un o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod y dull Partneriaeth Cyfuno wedi arwain at fanteision i wasanaethau awdurdodau lleol. Un pwynt a ddaeth i'r amlwg yn gryf mewn llawer o'r cyfweliadau oedd y ffyrdd yr oedd gwasanaethau awdurdodau lleol, drwy'r rhaglen Cyfuno, wedi agor eu llygaid i ffyrdd newydd o feddwl a gwneud pethau. Yn y cyfweliadau, roedd y trafodaethau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar wasanaethau awdurdodau lleol yn dysgu am ffyrdd eraill o ymgysylltu â grwpiau targed ac unigolion:

*"...maent wedi cael cyfle i glywed am ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â gwahanol rannau o'r gymuned a chwalu rhwystrau. Mae clywed am rai prosiectau cadarnhaol iawn a ffyrdd o weithio wedi eu helpu i feddwl am ffyrdd eraill o fynd i'r afael â rhai o'u blaenoriaethau. Mae cynnwys artistiaid a sefydliadau celfyddydol wedi eu helpu i gyflawni rhai o'r blaenoriaethau hynny."*

*"Rwy'n credu ei fod wedi agor eu llygaid i'r ffordd y gellir defnyddio'r celfyddydau a threftadaeth yn eu gwaith, sy'n rhywbeth nad wyf yn credu ei fod wedi'i ystyried o'r blaen, oherwydd roeddem wedi ceisio mynd ar drywydd y celfyddydau ac adfywio o'r blaen, ac nid oedd y drws wedi'i gau, ond nid wyf yn credu ein bod wedi gwerthu'r achos cystal ag y gallem a doedden nhw ddim yn frwdfrydig amdano."*

3.42 Fel y dengys y dyfyniad uchod, cododd llawer o'r rhai a gyfwelwyd y thema rhwystrau, nid dim ond mewn perthynas â dileu'r camsyniadau o ddiwylliant ymysg grwpiau targed ac unigolion, ond hefyd rhai rhagfarnau yn erbyn gwerth ymyriadau diwylliannol yr oedd y cyfweleion yn credu eu bod yn bodoli o fewn awdurdodau lleol. Mantais arall a gododd yn ystod y cyfweliadau, felly, oedd y cyfle a ddarparwyd gan Cyfuno i sefydliadau gyflwyno'r achos dros ddiwylliant i wasanaethau awdurdodau lleol. Cafodd hyn ei fynegi gan un cyfwelai fel a ganlyn:

"*Gwell dealltwriaeth o'r hyn y gall pob sector ei gyfrannu.. a chwalu rhai camsyniadau a rhai rhwystrau."*

3.43 Pwysleisiodd rhai cyfweleion hefyd pa mor bwysig oedd sicrhau bod gwasanaethau awdurdodau lleol yn gweld y gweithgareddau ar waith, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r arlwy diwylliannol sydd ar gael. Er enghraifft, roedd trafodaeth un cyfwelai yn ymwneud â'r thema ffyrdd newydd o feddwl a gwneud pethau, ac ar y ffaith bod awdurdodau lleol, i raddau, yn amharod i gymryd risg. Roedd yn teimlo bod gwasanaethau awdurdodau lleol, yn hanesyddol, yn chwarae'n saff ac roeddent yn amharod i roi cynnig ar weithgareddau newydd a / neu ddarparwyr gwahanol. Ar gyfer y cyfwelai hwn, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno arlwy diwylliannol *"cul iawn"* yn seiliedig ar *"ailadrodd yr un hen bethau bob tro"* ac roedd hyn yn cael ei ddwysáu oherwydd cyfyngiadau cyllidebol llywodraeth leol. Iddynt hwy, un o brif fanteision Cyfuno oedd ehangu safbwyntiau rhanddeiliaid awdurdodau lleol drwy alluogi awdurdodau lleol i gyflogi artistiaid gwahanol, a thrwy hynny eu galluogi i roi cynnig ar amrywiaeth ehangach o arlwy diwylliannol ac efallai bod ychydig yn llai cyndyn o gymryd risg wrth wneud penderfyniadau:

*"Dylent roi cynnig ar bethau a gweld sut y gallant [gwasanaethau awdurdodau lleol] ymgysylltu eu hunain mewn gwahanol ffyrdd. Rwy'n credu ei bod yn haws i'r cyngor fynd yn ôl at bobl maen nhw wastad yn rhoi cynnig arnynt neu wastad yn eu defnyddio... a siarad yn bersonol am ein prosiectau ni, nid wyf yn credu eu bod bob amser yn meddwl am ddrama fel gweithgaredd i'w gynnig, ac mae'r artistiaid sy'n dod i weithio gyda mi yn artistiaid proffesiynol na fyddent wedi eu gweld o'r blaen. Rwy'n credu ei fod yn beth da eu bod wedi cael agoriad llygad gan yr ystod ehangach o arlwy artistig a sut mae'r artistiaid hynny, er eu bod yn artistiaid proffesiynol sy'n cynhyrchu gwaith yn eu maes, hefyd yn gweithio mewn lleoliadau cymunedol ac yna gall [gwasanaethau awdurdodau lleol] weld sut y gallai hynny ddigwydd eto... felly un fantais yw rhoi cynnig ar bethau, oherwydd nid oes gan y cyngor lawer o arian, ac maent yn gwneud yr un hen bethau dro ar ôl tro."*

3.44 Yn gyffredinol, roedd barn y cyfweleion am y cyfleoedd i rwydweithio gyda rhanddeiliaid yr awdurdodau lleol a ddarperir drwy Cyfuno yn gadarnhaol. Adroddodd llawer ohonynt am gyfleoedd i rannu syniadau a barn gyda rhanddeiliaid awdurdodau lleol, a chael anogaeth a chyfle i drafod barn yn gyfnewid am hynny. Roedd hyn yn cynnwys rhannu arferion da ac arferion gwael. Nododd dau o'r rhai a gyfwelwyd sut yr oedd y cyfarfodydd yn darparu fforwm ar gyfer cryfhau cysylltiadau gyda gwasanaethau awdurdodau lleol, gan osgoi dyblygu a chefnogi cydweithio:

*"Rwy'n meddwl mai'r brif fantais i [wasanaethau awdurdodau lleol] yn y bôn yw gwybod pwy sy'n gweithio yn ei ardal... gwybod pa fath o sefydliadau sydd yno, gan wybod am y gwaith y mae'r sefydliadau hyn yn ei wneud, ac yn helpu i gefnogi'r gweithgareddau hynny yn hytrach na gweithredu neu ddyblygu pethau sydd eisoes yn cael eu gwneud gan sefydliad arall."*

*"O ran y manteision i awdurdodau lleol... mae'n caniatáu i'r berthynas ddyfnhau rhwng y gwahanol wasanaethau... mae'n caniatáu i'r awdurdodau lleol rannu arferion da ac arferion gwael... rwy'n credu mai cydweithio yw'r ffordd ymlaen yn bendant."*

Mae'n werth nodi bod un cyfwelai wedi amlygu'r rôl bwysig y gallai gwasanaethau awdurdodau lleol ei chwarae wrth helpu sefydliadau diwylliannol i ddangos gwerth eu gweithgareddau i fynd i'r afael â thlodi. Ar gyfer y cyfwelai hwn, un o brif fanteision y dull Cyfuno oedd y pwyslais a roddir gan awdurdodau lleol ar ganlyniadau monitro ac adrodd drwy olrhain cynnydd cyfranogwyr. Roedd hyn yn golygu bod gan y cyfwelai well dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud ag effaith ymyriadau diwylliannol yn ymwneud â lles:

*"...mae cymaint o ymchwil ar gael ar hyn o bryd ar lesiant a'r hyn sy'n ysgogi lles... sut y gall [ymyriadau diwylliannol] helpu pobl hŷn gyda llesiant, sut y gallwn helpu pobl iau sydd â lles a sut mae hynny wedyn yn ysgogi cymunedau iachach, hapusach... boed yn Cymunedau yn*

*Gyntaf a dim ond meddwl am ba wasanaethau lleol sydd ar gael i bobl yn y cymunedau... mae'r rheini'n lleoedd lle y gall y celfyddydau fod yn hynod o ddefnyddiol a lle rydym oll yn awyddus i gael mewnbwn, o ddifrif... y peth diddorol o ran y celfyddydau yn y sgwrs honno yw'r gwaith anhygoel y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud o ran sut y maent yn olrhain eu cyfranogwyr, sut y maent yn olrhain bobl sy'n rhyngweithio â nhw... mae cymaint o wahanol ffyrdd y gall y celfyddydau helpu awdurdodau lleol a gall awdurdodau lleol helpu'r celfyddydau i wybod ychydig mwy am eu heffaith."*

*Manteision i asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig*

3.45 Nododd rhai cyfweleion fanteision penodol y Partneriaethau Cyfuno ar gyfer yr asiantaethau cymunedol lleol hynny sy'n gweithio o fewn cymunedau difreintiedig drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. O ran y cyfweleion hyn, ymysg manteision y dull Cyfuno i asiantaethau cymunedol lleol a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen roedd sut y mae Partneriaethau Cyfuno wedi cysylltu artistiaid sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni prosiectau cyffrous a diddorol gydag asiantaethau cymunedol lleol. O ganlyniad, ystyriwyd bod hyn yn galluogi arloesedd drwy agor drysau i syniadau a chyfleoedd newydd ar gyfer asiantaethau cymunedol lleol i ymgysylltu â grwpiau targed ac unigolion mewn ffyrdd gwahanol, a oedd wedi arwain at gyflwyno gweithgareddau newydd.

3.46 Mantais arall y cyfeiriodd nifer fach o gyfweleion ati oedd cyfuno adnoddau rhwng sefydliad diwylliannol ac asiantaethau cymunedol lleol o ganlyniad i gysylltiadau a ffurfiwyd drwy aelodaeth o'r Bartneriaeth Cyfuno. Cyfeiriodd un cyfwelai yn benodol at gyfuno adnoddau ariannol mewn perthynas ag asiantaethau cymunedol lleol; a disgrifiodd dau gyfwelai sut yr oedd rhannu cyfrifoldebau ar lefel cynllunio a chyflawni'r prosiect wedi arwain at ddarparu gweithgareddau ychwanegol.

*"Mae'n ymwneud a dod i gysylltiad ag ymyriadau celfyddydol o ansawdd uchel a gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â grwpiau ac unigolion. Mae'n ymwneud â meddwl ychydig yn fwy creadigol o ran sut y gallent fynd i'r afael â rhai o'u blaenoriaethau."*

*"Mae'n cyfuno adnoddau ac yn rhoi mynediad iddynt i gynnyrch mewn ffordd na fyddai'n digwydd fel arall. Felly ar lefel ymarferol iawn, ni fyddent yn gallu cael gafael ar gynhyrchiad theatr i bobl ifanc fel arfer. Felly rhoddodd rywbeth iddynt ei gynnig a oedd yn hwyliog ac yn bleserus ac allan o'r cyffredin."*

*"...maent wedi llwyddo i gyrraedd pobl mewn ffordd wahanol i'r hyn y byddent wedi'i wneud o'r blaen, a chael mynediad i wasanaethau gwahanol a phartneriaid gwahanol."*

*Darparu gweithgareddau*

3.47 Pan ofynnwyd iddynt ystyried a yw ei sefydliad, ers ymuno â Phartneriaeth Cyfuno, "yn fwy effeithiol wrth gynnal gweithgareddau gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd'", roedd bron hanner yr ymatebwyr (n=31) *yn cytuno'n gryf* (n=7) neu'n *cytuno* (n=24) â'r datganiad. Fodd bynnag, roedd cyfran lai o'r ymatebion i'r arolwg, sef naw o ymatebwyr (14%), yn *anghytuno* (n=7) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=2) â'r datganiad. Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr (n=23), a oedd yn cyfrif am 36% o'r ymatebwyr, *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad.

3.48 Yn ôl canlyniadau'r arolwg ar-lein roedd chwe deg chwech y cant, neu bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (n=42 (*cytuno'n gryf*, n=5; yn *cytuno*, n= 37)), yn teimlo bod "unigolion sy'n profi tlodi yn cael mwy o fynediad i weithgareddau diwylliannol" ers sefydlu eu Partneriaeth Cyfuno; gyda dim ond pump o'r ymatebwyr yn *anghytuno* (n=4) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=1) â'r datganiad hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd pymtheg o'r ymatebwyr *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad hwn.


**Heriau a ffactorau llwyddiant hollbwysig**

3.49 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein ac i'r cyfweleion hefyd ystyried unrhyw heriau a chyfyngiadau y maent yn eu cysylltu â'r dull Cyfuno. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r pynciau hyn. Mae'r canfyddiadau yn cael eu

hystyried ochr yn ochr â ffactorau a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion fel rhai hollbwysig i lwyddiant y Bartneriaeth Cyfuno, ac fe'u hamlinellir drwy'r adran hon a'u dwyn ynghyd fel rhan o drafodaeth ehangach ar brif ffactorau llwyddiant y rhaglen Cyfuno yn y bennod nesaf.

3.50 Fel rhan o'r arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r ymatebwyr feddwl am gyfranogiad eu sefydliad mewn Partneriaeth Cyfuno, cyn nodi i ba raddau yr oedd nifer o ffactorau wedi cyflwyno her. O blith yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, yr her fwyaf cyffredin a nodwyd oedd 'casglu data monitro a gwerthuso', gyda 69% o'r ymatebwyr yn nodi bod hyn yn her *weithiau* (n=34), *y rhan fwyaf o'r amser*, (n=8) neu *bob amser*, (n=2). Cafodd hyn ei ddilyn yn agos gan 'cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol', gyda 64% o'r ymatebwyr yn dweud bod hyn yn her *weithiau* (n=41), *y rhan fwyaf o'r amser* (n=8) neu *bob amser* (n=2).

**Siart 1.5:** I ba raddau ydych chi wedi gweld y ffactorau canlynol yn heriol, o ystyried cyfranogiad eich sefydliad yn y Bartneriaeth Cyfuno. (Mae'r siart yma yn cynnwys ymatebion o *weithiau*, *y rhan fwyaf o'r amser* a *bob amser*).



*Cydweithio a chyfathrebu effeithiol rhwng rhanddeiliaid*

3.51 Fel rhan o'r arolwg ar-lein, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oedd "cydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill" yn her yn ystod y cyfnod yr oedd eu sefydliad yn cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod *byth* (n=16) neu'n *anaml* (n=35) yn canfod bod cydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen yn her, ac roedd hyn yn cyfrif am bedair rhan o bump, neu 80%, o'r ymatebion. Dywedodd cyfran fach o'r saith ymatebydd bod hyn yn her *weithiau*; gyda chyfran lai eto yn dweud ei fod yn her *y rhan fwyaf o'r amser* (n=1) neu *bob amser* (n=3).

3.52 Yn yr arolwg, hefyd gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oedd "cydweithio â sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi" yn her yn ystod yr adeg y bu eu sefydliad yn cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno. Dywedodd y rhan fwyaf bod o ymatebwyr eu bod *byth* (n=11) neu'n *anaml* (n=32) yn canfod bod cydweithio â sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi yn her; er, gan gyfrif am 67% o'r ymatebion, bod hyn i raddau llai na "c[h]ydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill". Dywedodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (n=17; 27%) fod cydweithio â sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi yn her *weithiau*, gyda nifer fach o ymatebwyr yn dweud bod hyn yn her *bob amser* (n=2) neu'r *rhan fwyaf o'r amser* (n=1).

3.53 Dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr nad oedd "diffyg cefnogaeth gan awdurdodau lleol" yn her gyson i'w sefydliad o ran cyfranogi mewn Partneriaeth Cyfuno; gyda thros 70 y cant o'r ymatebwyr (n=46) yn dewis yr opsiwn *byth* (n=23) neu *anaml* (n=23). Dywedodd pedwar ar ddeg o'r ymatebwyr (22%) fod diffyg cymorth gan awdurdodau lleol yn her *weithiau*; gyda thri ymatebydd yn nodi bod cael cymorth gan yr awdurdodau lleol yn her *y rhan fwyaf o'r amser* (n=1) neu *bob amser* (n=2).

3.54 Yn y cyfweliadau lled-strwythuredig cyfeiriwyd yn aml at anawsterau cyfathrebu, ac yn benodol, y berthynas rhwng sefydliadau diwylliannol a swyddogion Cymunedau yn Gyntaf. Yn yr achosion lle nad oedd aelod o

staff dynodedig ar gyfer y bartneriaeth, dywedodd rhai o'r cyfweleion eu bod wedi cael eu hanwybyddu yn ystod y camau cychwynnol pan oedd eu Bwrdd Cyflawni Arweiniol yn sefydlu partneriaeth, gan greu ansicrwydd a chanfyddiad nad oedd eu hawdurdod lleol yn cydnabod y cyfraniad y gallai eu sefydliad ei wneud i Cyfuno:

*"...mae'n teimlo fel bod yna her gyfathrebu yn sicr o ran Cymunedau yn Gyntaf yn anfon gwybodaeth atom ynglyn â'r hyn sy'n digwydd..."*

*"...cyfathrebu oedd y brif her i ni.... Rwy'n credu mai'r peth anoddaf oedd cael ein troed yn y drws ac ar ôl inni wneud hynny daeth pethau ychydig yn haws."*

3.55 Amlygwyd anawsterau tebyg yn y cwestiwn ar heriau a oedd yn gofyn am ateb pen-agored, lle yr amlygodd dau ymatebydd bod cyfathrebu effeithiol rhwng rhanddeiliaid. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd fod *"deall yn glir ymdrechion cydweithredol er mwyn eu hyrwyddo'n effeithiol i'r cyhoedd"* yn allweddol, oherwydd roeddent wedi cael problemau'n ymwneud ag ymgynghori a rhannu gwybodaeth mewn modd aneffeithiol. Disgrifiodd ymatebydd arall yr anawsterau o ran:

*"...gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf mewn ffordd gynhyrchiol ... Ni chafodd ein cyngor a'n harbenigedd eu defnyddio, er bod gennym y cysylltiadau a'n bod wedi cynnal prosiectau fel hyn ers amser maith."*

Ond i ymatebydd arall, yr her oedd:

*"Ymuno â'r bartneriaeth yn y lle cyntaf - roedd yn rhaid inni wahodd ein hunain gan ein bod yn cael ein hanwybyddu!"*

3.56 Un broblem i un cyfwelai oedd sut i gyfathrebu'r hyn a ddysgwyd ac adeiladu ar arferion gorau o dan y bartneriaeth. Roedd yr ymateb hwn yn canolbwyntio ar yr angen i ddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau a lledaenu canfyddiadau:

*"...sut mae mesur yr hyn rydym wedi'i wneud? Sut mae mesur effaith yr hyn rydym wedi'i wneud a gwneud yn siŵr bod yr holl bartneriaid dan sylw, i gyd wedi cael eu hysbysu am hynny er mwyn inni i gyd allu cyfathrebu'r llwyddiannau?"*

I'r gwrthwyneb, nododd un ymatebydd yn yr arolwg ar-lein bod lefel yr adroddiadau sydd eu hangen o dan y rhaglen Cyfuno yn ormod, ac yn llesteirio'r broses o ddatblygu partneriaeth. Roedd yr ymatebydd hwn, ynghyd ag un arall, hefyd yn teimlo bod y pwyslais ar gasglu data ar ganlyniadau yn rhy feichus:

*"Y brif broblem oedd lefel yr adroddiadau sy'n ofynnol ac roedd hynny i ryw raddau yn llesteirio hyblygrwydd a natur organig datblygu partneriaeth."*

*"[yr her oedd] gorfod gwrando ar gyflwyniadau lluosog am dargedau Cymunedau yn Gyntaf a chynlluniau gweithgaredd."*

*Meithrin gallu*

3.57 Roedd llawer o bwyntiau a godwyd yn ystod y cyfweliadau yn canolbwyntio ar allu ac adnoddau cyfyngedig i ddarparu gweithgareddau. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio ar allu'r staff i ddod o hyd i'r amser ychwanegol i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses o ddarparu gweithgareddau. Er enghraifft, dywedodd nifer o'r cyfweleion bod mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth Cyfuno, yn ogystal â chynnal gweithgareddau mewn rhai achosion, yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau beunyddiol ac roedd hynny'n gofyn am jyglo ymrwymiadau presennol. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, fodd bynnag, trafodwyd yr heriau ochr yn ochr ag awydd cyffredinol i gyfrannu at amcanion y bartneriaeth.

*"Rydym yn dîm bach iawn, felly ar adegau mae'n her oherwydd ein bod eisiau gwneud pethau, rydym mor barod, ond mae'n dibynnu ar b'un a oes gennym yr adnoddau. Mae'n fater o "a allwn wneud hyn?", "allwn oresgyn y broblem?", "a oes digon o bobl ar gael?" Mae'n golygu trefnu*

*ein hunain er mwyn inni allu cyfrannu. Mae hynny bob amser yn dipyn o her... weithiau mae angen tipyn o waith i oresgyn yr holl bethau hyn."*

*"...oherwydd bod gennyf gylch gwaith sy'n cwmpasu Cymru gyfan a dim ond yn rhan amser rwy'n cael fy ariannu ar gyfer y prosiect, weithiau mae'n broblem yn ymwneud â gallu neu amser. Mae'n rhaid i mi gwmpasu Cymru gyfan, felly nid wyf wedi gallu cyrraedd cymaint o gyfarfodydd ag y byddwn wedi ei hoffi."*

*"Mae gallu'r staff yn her enfawr oherwydd ei fod yn rhywbeth ychwanegol at ein gwaith bob dydd. Wedi dweud hynny, roeddent yn [gyfranogwyr] yr oeddem yn gobeithio eu targedu, felly mae wedi bod yn rhan o'm gwaith hefyd, ond mae'r gallu i wneud y gwaith wedi bod yn heriol ar adegau, ac rwy'n credu, hefyd, eich bod yn rhoi llawer o ymdrech i mewn iddo, ac weithiau mae'r nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn eithaf uchel ac mae hynny braidd yn rhwystredig, ond rydych yn gwybod bod hynny'n rhan annatod o weithio gyda [y cyfranogwyr]."*

3.58 Cyfeiriodd un cyfwelai at ei brofiad personol o fewn Partneriaeth Cyfuno i dynnu sylw at fewnbwn Byrddau Cyflawni Arweiniol fel risg, o ran peidio â chael y bobl iawn yn eu lle i ddatblygu partneriaethau a gweithio mor effeithiol ar gynllunio a darparu gweithgareddau:

*"...efallai y bydd y cysylltiadau ychydig yn anghyson neu ychydig yn wan yn dibynnu pwy yw'r partner arweiniol, ac nid oes ganddynt o reidrwydd ddigon o sgiliau, capasiti neu amser i wthio pethau ymlaen."*

3.59 Fel rhan o'r arolwg ar-lein ac mewn rhai o'r cyfweliadau, roedd her arall a godwyd yn ymwneud ag amserlen y rhaglen Cyfuno ei hun. Er enghraifft, cododd dau o'r cyfweleion faterion a oedd yn cynnwys yr amser cyfyngedig sydd ar gael i greu perthynas ac adnabod anghenion mewn partneriaeth gyda chyfranogwyr targed, yn ogystal â gofynion y rhaglen i weithgareddau gael eu cynllunio a'u rhoi ar waith o fewn y terfynau amser byr ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Cafodd y rhain eu hystyried yn wendidau o ran y dull Cyfuno, ac ystyriwyd bod terfynau

amser byr y rhaglen yn cyfyngu ar ymgysylltu dyfnach gyda'r cyfranogwyr targed:

*"...mae 'na her, gan fod y cydgynhyrchu yn cymryd amser, adeiladu perthynas... ac nid yw mor syml â gofyn i bobl beth sydd ei eisiau arnynt, oherwydd os nad oes ganddynt glem, ni fyddant yn gwybod beth sydd ei eisiau arnynt. Mae hynny'n ormod i'w ofyn. Mae angen ichi... ymgysylltu â hwy i ddangos y math o beth y gallant [ei wneud], yna daw'n fater o "ie, hoffwn i gael mwy o hyn", neu "ie, byddai gennyf ddiddordeb mewn gwneud hynny.""*

*"Roedd yn rhaid iddyn nhw [y Bwrdd Cyflawni Arweiniol] weithredu ar unwaith a meddwl am syniadau ar unwaith. Roedd bron ar ben cyn gynted ag y dechreuodd mewn gwirionedd. Rwy'n credu bod y terfynau amser, a phenderfynu ar y blaenoriaethau a'r syniadau, yn rhy fyr."*

3.60 Nodwyd y thema creu perthynas hefyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg. Pan ofynnwyd iddynt fyfyrio'n fwy cyffredinol ar yr heriau sy'n gysylltiedig â'r dull Partneriaeth Cyfuno, nododd un ymatebydd *"...amser i feithrin partneriaethau newydd"* fel ffactor a oedd wedi bod yn her i gymryd rhan. Tynnodd sylw at y ffaith bod y bwlch rhwng blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y cyfnod peilot wedi amharu ar allu ei sefydliad i ddatblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill. Hefyd, pwysleisiodd ymatebydd arall yr amser sydd ei angen i greu cysylltiadau:

*"Mae cyfarfodydd Cyfuno yn broses araf - mae angen amser i feithrin perthynas ac ymddiriedaeth."*

*Cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol*

3.61 Gofynnodd un o'r cwestiynau yn yr arolwg i ba raddau yr oedd "cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol" wedi bod yn her yn ystod cyfranogiad eu sefydliad mewn Partneriaeth Cyfuno. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (n=35; 55%) yn wynebu heriau *weithiau*, tra y dywedodd bron i draean o'r ymatebwyr (n=20; 31%) mai *anaml* (n=20) yr oeddent yn wynebu heriau o'r fath. Fodd bynnag, dim ond un ymatebydd

a ddywedodd nad oedd *byth* wedi cael her o ran cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol. Ar y llaw arall, dywedodd saith o'r ymatebwyr (11%) bod cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol yn heriol *y rhan fwyaf o'r amser* (n=5) neu *bob amser* (n=2).

*Cyfyngiadau ar adnoddau*

3.62 Pwysleisiwyd hefyd yr ansicrwydd a grëwyd gan yr hinsawdd economaidd bresennol, toriadau yn y gyllideb ar draws y sector diwylliant a threftadaeth, a'r anawsterau sy'n deillio o hynny o ran cynllunio strategol tymor hwy gan rai ymatebwyr. Er enghraifft, yn ôl un cyfwelai:

*"...rydych yn gweithio ar draws sector lle mae'r arian yn anghyson, ac o ystyried yr hinsawdd economaidd a chymdeithasol bresennol, gallai hynny waethygu. Felly, mae ceisio creu model twf yn anodd iawn ar hyn o bryd."*

3.63 Yn yr un modd, cyfeiriodd un ymatebydd i'r arolwg ar-lein at doriadau yn y gyllideb diwylliant ar lefel awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol, yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, fel rhwystr sylweddol i'w huchelgeisiau o ran partneriaethau:

*"Ansicrwydd o ran cyllido gweithgaredd celfyddydol... a gostyngiad yng nghyllideb prosiectau loteri Cyngor y Celfyddydau yn effeithio ar ystod ac uchelgais gweithgareddau celfyddydol."*

3.64 Yn gyffredinol, roedd "ansicrwydd ynghylch adnoddau" yn ffactor a oedd yn codi amlaf fel her i gyfranogiad ymatebwyr i'r arolwg mewn Partneriaeth Cyfuno. Nododd dros un rhan o bump o'r ymatebwyr (22%) fod hyn yn her *y rhan fwyaf o'r amser* (n=7) neu *bob amser* (n=7); ond mae hyn yn cyfrif am nifer cymharol fach o bedwar ar ddeg o ymatebion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ffactor hwn wedi'u clystyru o amgylch yr opsiwn *weithiau* (n=29; 45%), gyda thros chwarter yr ymatebwyr (n=18; 28%) yn ystyried bod diffyg adnoddau yn her i

gyfranogiad eu sefydliadau mewn Partneriaeth Cyfuno yn *anaml* (n=12) neu *byth* (n=6).

3.65 Pan (mewn ymateb agored) y gofynnwyd i'r ymatebwyr am unrhyw ffactorau eraill a oedd yn heriol, cyfeiriodd pedwar ymatebydd at bryderon ynghylch eu gallu i flaengynllunio o ganlyniad i'r ffaith bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei dirwyn i ben yn raddol. Ar gyfer un o'r ymatebwyr hyn, yr her oedd:

*"...diffyg cynllunio ar gyfer y dyfodol, gyda chleddyf Damocles yn hofran uwchben Cymunedau yn Gyntaf ers tro byd..."*

3.66 Roedd ymatebion testun agored dau o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwneud â'r anawsterau o gadw a dyrannu staff a'u dyrannu i weithgareddau yn dilyn ailstrwythuro yn gysylltiedig â Cymunedau yn Gyntaf; roedd hynny wedi cyfyngu ar allu eu sefydliadau i gyflawni prosiectau mewn ffordd gydweithredol:

*"Daeth dyrannu adnoddau i reoli'r Bartneriaeth yn ystod yr ail flwyddyn yn fwy heriol oherwydd argaeledd staff a newidiadau strwythurol sy'n gysylltiedig â Cymunedau yn Gyntaf. Mae dyrannu adnoddau i weithgaredd ychwanegol wedi bod yn her, nid o ran cymhelliant, ond o ran blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd ac adnodd ac amser cyfyngedig i gyflawni'r prosiect."*

*"Yr her fwyaf oedd y cyhoeddiad ynghylch Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd y cyhoeddiad at gadwyn o anawsterau i'r holl bartneriaid a oedd yn ymwneud â chydweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf i gyflwyno'r rhaglen Cyfuno. Mae'r rhaglen i fod yn un gydweithredol lle mae partneriaid yn gweithio ochr yn ochr, ond yn anffodus cafodd y cyhoeddiad effaith andwyol ar y bartneriaeth oherwydd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Cymunedau yn Gyntaf a chollwyd sawl aelod allweddol o staff a oedd yn teimlo rheidrwydd i chwilio am waith arall."*

*Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau*

3.67 Cafodd y cymorth ariannol sydd ar gael i Bartneriaethau Cyfuno ddatblygu gweithgareddau ei godi'n benodol fel her gan yr ymatebwyr i'r arolwg ac yn y cyfweliadau lled-strwythuredig. Roedd yr ymatebion hyn yn canolbwyntio ar y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, naill ai drwy raglen Cyfuno neu ar lefel awdurdod lleol, ac ar draws y sector diwylliannol yn fwy cyffredinol.

3.68 Codwyd ansicrwydd ariannol gan dri chyfwelai, a bwysleisiodd y gwaith sydd angen ei wneud ymlaen llaw er mwyn i gysylltiadau gwaith fwrw gwreiddiau a mynegodd bryder efallai na fydd modd parhau â'r dull Partneriaeth Cyfuno ar ôl i'r grantiau ddod i ben. Gwelwyd adnoddau annigonol i ymgymryd â gweithgareddau fel cyfyngiad penodol, gyda dau gyfwelai yn pwysleisio bod yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i wneud cais am grantiau o ffynonellau eraill yn bryder penodol, oherwydd mae'n golygu buddsoddi amser ymlaen llaw heb unrhyw sicrwydd y byddai'r gwaith a wnaed ar geisiadau yn talu ffordd.

*"...os gallwn gael rhywfaint o gymorth grant i gefnogi'r capasiti i wneud y gwaith hwnnw, efallai y byddwn yn gallu gosod rhai o'r sylfeini ar gyfer hynny. Ond, rwy'n pryderu pan ddaw i ben yna bydd y gwaith yn stopio ac ni fydd dim yn digwydd."*

*"Yr her yw sut i gydweithio os nad oes arian ar gael... os na allant dalu ichi wneud rhywbeth mae'n eithaf anodd imi gyflawni rhywbeth, oni bai fy mod yn trefnu prosiect mawr a denu rhywfaint o gyllid er mwyn gwneud hynny. Rwy'n obeithiol y gallaf wneud hynny yn y dyfodol, a gall [y sefydliad diwylliannol a'r Bwrdd Cyflawni Arweiniol] efallai weithio ar geisiadau am arian ar y cyd eto, ond os na fydd y ceisiadau cyllido yn llwyddiannus yna ni fydd y prosiect yn digwydd, ac nid yw hynny'n ganlyniad gwych i [sefydliad diwylliannol] nac i'n partneriaid Cyfuno."*

3.69 Roedd cyfwelai arall yn gweld anghysondebau rhwng yr adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer darparu gweithgareddau a chyflawni amcanion y rhaglen Cyfuno:

*"...y perygl yw nad yw'n cael ei ariannu'n ddigonol ar gyfer prosiect mor uchel ei broffil a oedd ag uchelgeisiau mor eang. Nid oedd y cyllid yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau hynny, neu o leiaf nid yn y lle cyntaf hyd y gwn i."*

3.70 Yn yr arolwg ar-lein, cododd un ymatebydd hefyd bryderon ynghylch y gyllideb gyfyngedig o fewn ei bartneriaeth ar gyfer datblygu gweithgareddau newydd, a materion yn ymwneud â rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid ynglŷn â darparu gweithgareddau gyda chyllideb gyfyngedig.

*Anghenion hyfforddi*

3.71 Disgrifiodd un cyfwelai sut yr oedd yn teimlo nad oedd yn gymwys i ymdrin â rhai o'r sefyllfaoedd sensitif a gododd wrth weithio gyda chyfranogwyr, a nododd yr angen am ragor o hyfforddiant i oresgyn hyn fel her allweddol:

*"Ar adegau hefyd, gall y gefnogaeth sydd ei hangen ar y [cyfranogwyr] fod yn eithaf dwys ac rydych yn teimlo efallai nad ydych yn gymwys i ymdrin â'r heriau hynny. Dyna un awgrym byddaf yn ei wneud ar ôl y rownd hon, sef y gallwn ni, fel y sefydliadau diwylliannol, fuddsoddi mewn rhywfaint o hyfforddiant ar hynny... rwyf yno ar fy mhen fy hun mewn gwirionedd ac weithiau rwy'n teimlo efallai fod angen mwy o sgiliau arnaf."*

*Monitro a gwerthuso*

3.72 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried cyfranogiad eu sefydliad mewn Partneriaeth Cyfuno, dywedodd dros eu hanner fod "casglu data monitro a gwerthuso" yn her *weithiau* (n=34; 53%). Dywedodd eu chwarter (n=25) mai *anaml* yr oedd hynny'n her, a chyfran fach iawn, sef dau ymatebydd, a ddywedodd nad oedd hynny *byth* yn her. Ar y pegwn arall

fodd bynnag, roedd deg ymatebydd (16%) yn cael problemau gyda chasglu data *bob amser* (n=2) neu'r *rhan fwyaf o'r amser* (n=8).

3.73 Gofynnodd yr arolwg hefyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno, ers eu Partneriaeth Cyfuno, bod "y dull o fonitro a gwerthuso o fewn eich sefydliad yn fwy cadarn." Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (n=37; 58%) *nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno* â'r datganiad hwn. Ar ddau begwn y raddfa: roedd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (n=17; 27%) yn *cytuno* (n=14) neu'n *cytuno'n gryf* â'r datganiad; ond ar y pegwn arall, roedd cyfran fach o'r ymatebwyr (n=9; 14%) yn *anghytuno* (n=6) neu'n *anghytuno'n gryf* (n=3).

3.74 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd i ba raddau yr oedd "addasu gweithgareddau i gyd-fynd ag amserlen adrodd y rhaglen Cyfuno" wedi bod yn her, gyda thros draean (n=24; 37%) yn dweud *weithiau*. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (n=27; 42%) *byth* (n=10) neu *anaml* (n=17). Ar y llaw arall, roedd naw o'r ymatebwyr wedi wynebu heriau (14%) *bob amser* (n=2) neu'r *rhan fwyaf o'r amser* (n=7).

*Ymgorffori cyfleoedd o fewn cymunedau*

3.75 Pan ofynnwyd pa ffactorau eraill a oedd wedi bod yn heriol o ystyried cyfranogiad eu sefydliad mewn Partneriaeth Cyfuno, cyfeiriodd rhai o’r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein at anawsterau i ymgorffori cyfleoedd diwylliannol. Nodwyd bod ennyn ymddiriedaeth a chreu perthynas gynaliadwy â sefydliadau cymunedol, o ystyried amserlen gyfyngedig y cyllid a oedd ar gael, yn her benodol gan un o'r ymatebwyr hyn. I ymatebydd arall, roedd y prif bwyslais ar sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir yn cael eu hymgorffori o fewn fframwaith o feddwl yn strategol yn y tymor hwy.

*"Mae'r ffaith ein bod oll yn rhaglenni sy'n cael eu hariannu yn y tymor byr yn arwain at ddiffyg ymddiriedaeth gan gymunedau."*

*"Darparu gweithgareddau a chyfleoedd sy'n gynaliadwy, sy'n galluogi, sy'n berthnasol ac sydd â gwaddol go iawn. Byddai ymchwil cyfranogol ac ymgorffori proses werthuso o gymorth yn hyn o beth."*

3.76 Yn wir, nododd un ymatebydd i'r arolwg fod y ffocws sy'n seiliedig ar weithgareddau o fewn eu partneriaeth yn llesteirio ei allu i sicrhau bod ymarfer yn bwrw gwreiddiau:

*"Y ffocws o ran cyfranogi oedd ymuno mewn gweithgareddau ond nid oedd llawer o gyfranogi a oedd wedi bwrw gwreiddiau - pan fydd Cyfuno yn dod i ben bydd y gweithgareddau'n dod i ben gydag ef. Nid oedd ganddo ffocws cynaliadwy, ond ffocws yn seiliedig ar weithgareddau."*


Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod angen ehangu'r ystod o randdeiliaid mewn partneriaethau, i ymgymryd ag ystod ehangach o sefydliadau gwrthdlodi:

*"Mae angen cynyddu'r partneriaid o'r gymuned mewn rhai o'r cyfarfodydd - cymdeithasau tai, sefydliadau datblygu eraill ac yn y blaen"*

*Ffactorau llwyddiant hollbwysig*

3.77 Yn yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi naw ffactor yn nhrefn pwysigrwydd o ran pa mor bwysig oeddent i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol (gweler Cwestiwn 10, Atodiad B). Rhoddwyd y ffactorau yn eu trefn gan roi'r pwysicaf yn gyntaf a'r lleiaf pwysig yn olaf. Cyfrifwyd canran ar gyfer nifer yr ymatebwyr a oedd wedi rhoi ffactor yn eu tri phrif ffactor pwysicaf (ceir dadansoddiad llawn o'r canlyniadau yn Nhabl X, Atodiad X), er mwyn penderfynu sut yr oedd y ffactorau yn cymharu â'i gilydd yn gyffredinol. Ystyriwyd mai "Partneriaeth Cyfuno sy'n cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau o wahanol sectorau" oedd y ffactor pwysicaf i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol, gyda 62% (n=38) o'r ymatebwyr yn cynnwys y ffactor hwn o fewn eu tri phrif ffactor. Y ffactor lleiaf pwysig yn gyffredinol oedd "data monitro a gwerthuso cadarn". Dim ond 12% (n=7) o'r ymatebwyr i'r arolwg a gynhwysodd y ffactor hwn yn eu tri phrif ffactor pwysicaf. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn yn Siart 1.6, isod.

**Siart 1.6:** Pa un or ffactorau canlynol fyddai'n fwyaf pwysig i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol?




3.78 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg hefyd mewn cwestiwn ymateb testun agored (gweler Cwestiwn 11, Atodiad B) pa ffactorau eraill yr oeddent yn credu "fyddai'n fwyaf pwysig i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol". Cafwyd 26 o ymatebion i gyd, yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- *Cydweithio a datblygu mentrau gan ddefnyddio dull cydgynhyrchiol* Ffactorau'n ymwneud â'r thema hon a gododd amlaf, gyda phedwar ar ddeg o'r ymatebion agored yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â dulliau ysgogol sy'n annog cydweithredu rhwng rhanddeiliaid. Roedd y pynciau allweddol a gododd hefyd yn cynnwys pwysigrwydd creu cysylltiadau cryf rhwng sefydliadau diwylliannol ac asiantaethau cymunedol lleol; annog perthynas waith dda a datblygu partneriaeth rhwng rhanddeiliaid; hwyluso cyfleoedd rhwydweithio yn gyson; sicrhau bod grwpiau mwy anodd eu cyrraedd yn cymryd rhan drwy gyfranogiad asiantaethau cymunedol lleol mewn Partneriaethau Cyfuno; a chynnwys y

gymuned wrth gynllunio gweithgareddau *"fel nad ydym yn parhau i wneud pethau i bobl, a'u bod yn rhan o'r broses o ddylunio'r rhaglenni"*, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth leol.

- *Mesur canlyniadau a dysgu o dystiolaeth*
  Roedd saith o ymatebion yn cyfeirio'n benodol at drefniadau monitro ac adrodd ac / neu'r angen i ddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau diwylliannol a gefnogir drwy Cyfuno; er enghraifft, drwy osod nodau neu astudiaethau achos. Roedd un o'r ymatebion, fodd bynnag, yn feirniadol o *"fecanweithiau monitro anhyblyg"* Cymunedau yn Gyntaf, nad oeddent, ym marn yr ymatebydd, yn adlewyrchu'r rhan hanfodol y mae asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau o amddifadedd yn ei chwarae.

- *Mwy o gyllid ar gyfer partneriaethau*
  Codwyd cyllid gan saith ymatebydd. Roedd y materion a godwyd gan ymatebwyr unigol yn cynnwys yr angen am fwy o arian ar gyfer gweithgareddau, nid dim ond rôl cydgysylltu; i ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi amrywiaeth; cyllid ar gyfer deunyddiau; ac i gysylltu'n fwy effeithiol â darparwyr sydd â mynediad at ffrydiau cyllido diwylliannol. Fodd bynnag, pwysleisiodd un ymatebydd: *"Mae'n rhaid cael ffydd yn Cyfuno ac nid ei weld fel llwybr i gyllid yn unig".*

- *Arweinyddiaeth gref ar gyfer y Partneriaethau Cyfuno*
  Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at ffactorau'n ymwneud â'r rôl bositif y gallai arweinwyr cryf ei chwarae mewn llunio partneriaethau, ac wrth lywio'r broses o gynllunio a darparu gweithgareddau. Fodd bynnag, cafodd y rôl arweiniol hon ei disgrifio mewn ffyrdd gwahanol gan yr ymatebwyr. Pwysleisiodd rhai y pwysigrwydd o gael asiantau creadigol mewn rolau partneriaeth allweddol, a thynnodd eraill sylw at rôl unigolion allweddol o fewn Byrddau Cyflawni Arweiniol yn ystod cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno.

- *Cyfathrebu effeithiol rhwng rhanddeiliaid*
  Nododd tri ymateb yn benodol fod gwella cyfathrebu yn fater y mae angen ei ddatrys er mwyn sicrhau llwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol. Yn benodol, pwysleisiodd un o'r ymatebion hyn yr angen i gefnogi gwahanol leisiau a rhannu gwybodaeth ar draws y rhwydwaith yn well; a dywedodd y ddau arall yn fwy cyffredinol bod angen llwybrau cyfathrebu cliriach.

- *Ymgorffori gweithgareddau diwylliannol mewn cymunedau difreintiedig*
  Cafwyd hefyd dri ymateb a gyfeiriodd at yr angen i ymgysylltu â chymunedau o amddifadedd wrth gynllunio a darparu gweithgareddau. Roedd y pwyslais ar bwysigrwydd blaengynllunio i greu newid parhaol. Roedd y materion yn cynnwys sut y gallai sefydliadau flaengynllunio'n well er mwyn pennu cyllidebau a chysoni blaenoriaethau strategol ag amcanion Cyfuno; a meddwl yn fwy penodol am waddol gwaith Cyfuno, er mwyn *"creu newid parhaol".*

*Ansawdd yr arlwy diwylliannol*

3.79 Pwnc a godwyd gan nifer o'r cyfweleion oedd ansawdd y gweithgareddau diwylliannol a gynigir drwy Bartneriaethau Cyfuno, a phwysleisiwyd yn gryf mai ffactor hollbwysig i lwyddiant y dull partneriaeth iddynt hwy oedd i unigolyn gyda'r lefel briodol o ddealltwriaeth, o ran arbenigedd diwylliannol a gwybodaeth am sector diwylliannol, fod yn rhan annatod o ddatblygu'r bartneriaeth. O ran y cyfweleion hyn, dylai'r rhaglen Cyfuno sicrhau bod unigolion sydd â dealltwriaeth gadarn o'r sector diwylliannol gael eu cynnwys o fewn partneriaethau mewn rôl gydlynu, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau diwylliannol a gynigir o ansawdd uchel, a bod cysylltiadau gyda darparwyr gweithgareddau diwylliannol arloesol a oedd yn ysgogi'r meddwl eisoes ar waith.

*"Yn wir, cael rhywun sydd wedi'i wreiddio... mewn treftadaeth a diwylliant yn barod, fel eu bod yn gwybod pwy sydd ar gael."*

3.80 Yn ôl un cyfwelai, heb fewnbwn gan arbenigwyr sydd wedi gweithio'n broffesiynol fel artistiaid yn y maes, mae'r rhaglen Cyfuno mewn perygl o golli ei hynodrwydd. Amlygodd y cyfwelai sut, o'i safbwynt ef, yr oedd hyd yn oed sefydliadau diwylliannol a ariennir gan awdurdodau lleol yn wynebu'r risg o fynd i rigol o ran eu ffyrdd o weithio, ac nid o reidrwydd meddwl yn greadigol am y cyfleoedd diwylliannol sydd ar gael ar gyfer grwpiau targed:

*"[Os] caiff ei rhedeg gan y cyngor... mae llawer o bobl sy'n gweithio yn y lleoliad hwnnw nad ydynt yn artistiaid. Nid oes ganddynt gefndir celfyddydol... Maent wedi gweithio eu ffordd drwy'r cyngor, efallai hyd yn oed yn y maes diwylliannol, ond efallai na fydd ganddynt unrhyw ddealltwriaeth artistig neu greiddiol, felly bydd y dewisiadau y byddant yn eu gwneud yn wahanol iawn i rywun sy'n artist ac yn gallu gweld ansawdd ac sydd â chysylltiadau eisoes yn yr ardal... mae angen rhywun sy'n wirioneddol greadigol i roi gogwydd artistig arno, neu fel arall mae'n mynd ar drywydd y gellir ei fodloni drwy rannau eraill o'r cyngor sydd â rhaglenni dychwelyd i'r gwaith. "*

3.81 Roedd mater arall sy'n berthnasol i ansawdd yr arlwy artistig a godwyd gan un cyfwelai yn canolbwyntio ar y ffaith nad oedd gan y Bwrdd Cyflawni Arweiniol gefndir artistig. O ganlyniad, i'r cyfwelai hwn, nid oedd y gweithgareddau diwylliannol a oedd yn cael eu cynnig yn cael eu hyrwyddo neu eu marchnata'n briodol, ac ystyriwyd bod llawer ohonynt yn anniddorol ac yn hen ffasiwn. Iddynt hwy, mae hyn yn peri risg o atgyfnerthu un o'r prif rwystrau i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, sef ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy anodd eu cyrraedd:

*"Roedd yna un prosiect ... roedd e'n swnio fel rhywbeth y byddech yn ei wneud yn yr ysgol, a dyna'r perygl... bod popeth yn swnio braidd yn sefydliadol, ychydig yn academaidd ac ychydig bach yn uchel-ael, neu ychydig bach fel yr iaith y byddai'r cynulliad yn siarad....*

*"...Mae angen geirio pethau sy'n swnio ychydig yn fwy deinamig. Gall y canlyniadau fod yr un fath, a gall y gweithgaredd mewn rhai ffyrdd fod yr un fath, ond dylid meddwl am "sut rydym yn marchnata'r gweithgaredd hwn?", "sut rydym yn mynd i ddenu cyfranogwyr?", "pa iaith y gallwn ei defnyddio i ddenu'r bobl hynny?" Efallai ei fod yn swnio braidd yn hurt, ond ei wneud ychydig yn cŵl ac yn atyniadol, er mwyn i bobl feddwl "beth yw hyn?""*

*Dim awgrymiadau am welliannau*

3.82 Wedi dweud hynny, nid oedd gan ddau gyfwelai unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r rhaglen, ond roeddent yn awyddus i bwysleisio eu bod yn fodlon ar sut mae eu priod Bartneriaethau Cyfuno wedi datblygu:

*"Rwy'n bendant yn credu y dylem gael mwy o'r un peth, oherwydd mae wedi gweithio, ac rwy'n meddwl bod pobl wedi elwa llawer ohono."*

*"Rwy'n gobeithio fy mod wedi bod yn frwdfrydig oherwydd rwyf wir yn meddwl ei fod wedi bod yn dda... Rydym wedi bod wrth ein bodd yn cymryd rhan... rwy'n credu bod [sefydliad diwylliannol] yn fwy eangfrydig nawr. Roeddem wastad eisiau bod yn eangfrydig. Roedd ethos bod angen inni gael cangen gymunedol a naws gymunedol ac fe wnaeth ein galluogi i wneud hynny... ni allaf ond dweud o'n safbwynt ni, rydym wedi mwynhau cymryd rhan yn fawr."*

3.83 Daeth yr arolwg ar-lein i ben gyda chwestiwn ymateb agored yn gofyn i ymatebwyr sut arall y maent yn credu y "gall sefydliadau diwylliannol gefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig". Cafwyd tri deg naw o ymatebion i gyd, ac ar y cyfan, roeddent yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- *Cydweithio a datblygu mentrau gan ddefnyddio dull cydgynhyrchiol* Roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin ar y thema hwyluso dulliau cydgynhyrchiol a chydweithredol drwy gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid yn y gwaith o ddatblygu gweithgareddau diwylliannol (roedd y thema hon hefyd yn amlwg yng Nghwestiwn 11 (gweler Atodiad B) yr arolwg ar-lein). Roedd y ffyrdd y gallai sefydliadau diwylliannol gefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig yn cynnwys:

    - defnyddio rhwydweithiau presennol sefydliadau diwylliannol i ehangu rhanddeiliaid y partneriaethau;
    - manteisio ar barodrwydd sefydliadau diwylliannol i gydweithio â rhanddeiliaid eraill i gysoni amcanion;
    - ysgogi trafodaeth a rhannu syniadau o fewn partneriaethau;
    - gweithgareddau cydgynhyrchu rhwng rhanddeiliaid i ymgorffori cyfleoedd, eu gwneud yn berthnasol ac yn wirioneddol gyfranogol i grwpiau targed;
    - i randdeiliaid ddatblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o dlodi a'i effeithiau, a herio rhai o ragdybiaethau sefydliadau diwylliannol ar yr un pryd.

  *"Drwy weithio gyda'n gilydd i gynnig dull mwy amrywiol... yn hytrach nag ail-greu'r olwyn". "*

  *"Mae gan sefydliadau diwylliannol yn gyffredinol arbenigedd ar gydweithio a dod o hyd i atebion creadigol i faterion o bwys sy'n ymwneud ag anfantais. Mae gennym y gallu i deilwra prosiectau ac weithiau mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y gallwn gyflawni ein gwaith. Mae gennym eisoes rwydweithiau da o gysylltiadau. Mae'n ddefnyddiol inni sicrhau bod materion penodol wedi'u diffinio'n glir a bod agendâu ar gael i bawb er mwyn llywio syniadau am weithgareddau diwylliannol a allai ategu gwaith asiantaethau eraill."*

  *"Gweithio gyda'r gymuned [a] gwerthfawrogi sgiliau a gwybodaeth y gymuned honno a'r bobl sy'n greiddiol iddi.... [Gofyn] sut rydym yn galluogi rhaglenni fel Cyfuno i droi syniadau'n realiti sy'n gadael*

*gwaddol parhaol lle mae cymunedau'n llywio'r rhaglen yn hytrach na gweithwyr proffesiynol?"*

*"Drwy ddatblygu dealltwriaeth fwy cymhleth o natur tlodi i leihau rhai o'r syniadau cyfredol ymysg sefydliadau diwylliannol o'r hyn a fyddai'n "dda" i bobl."*

- *Gweithio gyda'r gymuned i nodi amcanion trechu tlodi*
  Roedd thema allweddol arall yn ymwneud â gweithio'n benodol gyda'r gymuned ar gynllunio gweithgareddau. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar sut y gall sefydliadau diwylliannol weithio'n well mewn partneriaeth ag unigolion a chymunedau i nodi eu hanghenion, a datblygu syniadau ar brosiectau priodol gyda'i gilydd, gan annog perchnogaeth leol a hwyluso newid. Er enghraifft:

  *"Drwy ddyfeisio prosiectau newydd mewn trafodaethau gyda grwpiau cymunedol ar sail y model cydgynhyrchiol i fynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol ac i roi llwyfan ystyrlon a llais iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol yn y dyfodol."*

  *"Gweithio gyda'r gymuned; dileu canlyniadau ticio blychau; datblygiad cymunedol yng nghalon cymunedau sy'n gwerthfawrogi sgiliau a gwybodaeth y gymuned honno a'r bobl sydd yn ei chanol, megis, er enghraifft, "beth maen nhw'n ei wybod am ddiwylliant?", "beth mae diwylliant yn ei olygu iddyn nhw?" a "sut mae galluogi rhaglenni fel Cyfuno i droi eu syniadau'n realiti sy'n gadael gwaddol parhaol, lle mae cymunedau yn llywio'r rhaglen yn hytrach na gweithwyr proffesiynol?"."*
- *Cyfeirio a darparu cyfleoedd newydd*
  Barn amlwg ar draws nifer o ymatebion oedd y rôl y gall sefydliadau diwylliannol ei chwarae o ran cyfeirio unigolion a chymunedau dan anfantais i'r cyfleoedd sydd ar gael drwy ddiwylliant. Roedd y materion a gododd o dan y thema hon yn ymwneud â'r syniad o ehangu mynediad i ystod eang o gyfleoedd diwylliannol ar gyfer unigolion sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, gan godi dyheadau ac ehangu gorwelion a sgiliau yn y broses.

*"...drwy roi profiadau iddynt y tu allan i'w trefn reolaidd, drwy agor drysau iddynt wirfoddoli ac ennill cymwysterau a phrofiadau, drwy gefnogi teuluoedd i godi eu dyheadau ar gyfer eu plant, gan annog cymunedau i godi eu dyheadau ar gyfer plant yn eu cymunedau."*

*"Rwy'n credu y gall profiadau diwylliannol helpu unigolion i ehangu eu profiadau, cysylltiadau a gorwelion fel y gallant ymchwilio i lwybrau newydd i mewn i waith, gwahanol ffyrdd o gysylltu â'r gymuned, a gwella ansawdd bywyd."*

*"Drwy gynnig rhaglenni diddorol, atyniadol ac ymarferol sy'n rhoi profiadau ystyrlon, sgiliau a chanlyniadau i'r cyfranogwyr sy'n eu galluogi a'u hysbrydoli i symud ymlaen i gyfleoedd newydd."*

- *Cynaliadwyedd ymyriadau*

  Cyfeiriodd rhai ymatebwyr yn benodol at gynaliadwyedd ymyriadau fel mater allweddol y dylid ei gydnabod, wrth feddwl am rôl sefydliadau diwylliannol yn cefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig. Roedd yr ymatebion hyn yn canolbwyntio ar gynnal lefel o ymgysylltu gyda chymunedau ac unigolion. Ar gyfer un o'r ymatebwyr hyn, gallai dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau drwy ymchwil cyfranogol a meddwl yn werthusol yn yr hirdymor helpu i gefnogi cynaliadwyedd ymyriadau.

  *"Byddai darparu gweithgareddau a chyfleoedd sy'n gynaliadwy, sy'n galluogi, ac sy'n berthnasol ac yn gadael gwaddol go iawn; ymchwil cyfranogol ac ymgorffori proses werthuso o gymorth yn hyn o beth. "*

  *"Cynnwys cynaliadwyedd ac osgoi ymgysylltu ar sail gormod/atal/dim sy'n gallu digwydd yn sgil cael cyllid."*

- *Cyllid*

  Mewn llawer o'r ymatebion, cyflwynwyd ffyrdd eraill y "gall sefydliadau diwylliannol gefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig" yn erbyn

pwyslais ar gyfyngiadau ariannol. Roedd materion eraill o dan y thema cyllid yn canolbwyntio ar y cyfyngiadau economaidd y mae rhanddeiliaid yn gweithredu o'u mewn ar hyn o bryd, a sut mae hyn yn effeithio ar y sector diwylliannol; y buddsoddiad ariannol sydd ei angen i ymgorffori gweithgareddau; a'r angen i sicrhau bod gweithgareddau am ddim ar gael i gyfranogwyr.

*"Rydym eisoes yn trefnu digwyddiadau celfyddydol a llenyddol blynyddol, lle mae pob gweithgaredd yn RHAD AC AM DDIM i'w mynychu. Mae'n bwysig rhoi cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar bethau newydd, na fyddent o bosibl yn gallu rhoi cynnig arnynt fel arall."*

*"Hoffem gynnig mwy o ddysgu ac ystod o gymorth ar gyfer meithrin sgiliau - ond mae angen arian er mwyn gallu cynnig hyn..."*

*"Mae sefydliadau diwylliannol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ymgysylltu drwy arallgyfeirio eu dull o ymgysylltu ond mae'r hinsawdd economaidd bresennol a'r toriadau a'r cyfyngiadau ar y sefydliadau hyn yn sgil hynny wedi ei gwneud yn fwy anodd... Nid yw'r canlyniadau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn dymuno eu cyflawni bob amser yn cydweddu â chanlyniadau'r cyrff diwylliannol ac mae angen gwneud gwaith pellach (ac o bosibl sicrhau rhagor o gyllid) i gefnogi cyrff diwylliannol i deilwra eu harlwy er mwyn ymgysylltu â chymunedau a'r agenda tlodi."*

- *Gwerthfawrogi diwylliant*
  Amlygodd llawer o'r ymatebwyr y cyfleoedd y gall sefydliadau diwylliannol eu cyflwyno o ran trechu tlodi drwy gynnwys pobl mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo'n gryf bod angen i ddiwylliant gael ei werthfawrogi'n briodol gan rai rhanddeiliaid sy'n asiantaethau cymunedol lleol ac sy'n yn gweithio mewn cymunedau difreintiedig:

*"Mae cyfle sylweddol i ymgysylltu â phobl drwy ddigwyddiadau diwylliannol ac rydym wedi casglu tystiolaeth i ddangos y gwahaniaeth y gall hyn ei wneud. Y prif beth yw bod angen ei werthfawrogi'n iawn ac nid cael ei ystyried yn 'bwnc niwlog'... mae ymchwil wedi profi bod gweithgareddau diwylliannol fel therapi sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol yn gweithio, ond nid yw'n cael ei werthfawrogi'n gyfartal ar lawr gwlad. Rwy'n gweithio mewn amgylchedd lle mae cydweithwyr o dimau eraill yn gweithio ar ben argyfwng y sbectrwm ac maent yn ei chael hi'n anodd deall bod y gwaith ataliol hwnnw yn werth yr arian."*

## 4. Casgliadau

4.1 Ar y cyfan, roedd barn y cyfranogwyr am Bartneriaethau Cyfuno yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod unrhyw anawsterau yn cael eu gorbwyso gan y manteision. Ystyriwyd mai'r manteision allweddol oedd:

- datblygu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid o wahanol sectorau;
- codi proffil sefydliadau rhanddeiliaid a chyflwyno'r ddadl dros ddiwylliant i randdeiliaid mewn awdurdodau a rhanddeiliaid gwrthdlodi sy'n rhan o bartneriaethau;
- targedu cynulleidfaoedd newydd sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd ac ymgysylltu â hwy.

4.2 Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd ar gyfer gwella Partneriaethau Cyfuno hefyd. Roedd un maes a awgrymwyd ar gyfer gwella yn ymwneud â chaniatáu mwy o amser yn gynnar yn y broses i sefydlu a datblygu cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid a helpu i hwyluso dulliau cydgynhyrchiol rhwng rhanddeiliaid a chyfranogwyr, o ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i adeiladu cysylltiadau cydweithredol. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r angen i ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau ac ymgorffori ac ysgogi partneriaethau er mwyn gallu datblygu prosiectau mewn ffyrdd cydweithredol a ffyrdd mwy cynaliadwy.

4.3 Hefyd, cododd gwell cyfathrebu fel mater y gellid ei wella i sicrhau llwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol. Yn benodol, hyrwyddo partneriaethau cynhwysol yn effeithiol, rhannu gwybodaeth, gan osgoi dyblygu, a dysgu gan eraill. Codwyd ffactorau'n ymwneud â rôl gref gadarnhaol wrth gydgysylltu partneriaethau ac arwain y gwaith o gynllunio a darparu gweithgareddau fel elfennau a oedd yn hanfodol i lwyddiant Cyfuno yn y dyfodol. Pwysleisiodd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil rôl allweddol unigolion â chefndir celfyddydol a gwybodaeth drylwyr o'r sector diwylliannol wrth ddatblygu partneriaethau ar lefel Bwrdd Cyflawni Arweiniol.

## Llyfryddiaeth


Andrews, K. (2014). *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.* [Ar-lein] Ar gael o: http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf [Fel ar: 15/05/2017].

Donaldson, G. (2015). *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales.* Cardiff: Welsh Government. [Online] Available from: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf [Fel ar: 02/08/2017].

Smith, D. (2013). *Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/130920-arts-in-education-cy.pdf [Fel ar: 15/05/2017].

Comisiwn Warwick, (2015). *Enriching Britain: Culture, Creativity and Growth.* [Ar-lein] Ar gael o: http://www2.warwick.ac.uk/research/warwickcommission/futureculture/finalreport/warwick_commission_final_report.pdf [Fel ar: 13/07/2017].

HM Treasury. (2011). *The Magenta Book. Guidance for Evaluation*. London: HM Treasury. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book [Fel ar: 11/08/2017].

Llywodraeth Cymru, (2013). *Canllawiau Rhaglen 2013 Cymunedau yn Gyntaf 2013.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf [Fel ar: 19/05/2017].

Llywodraeth Cymru, (2013). *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016.* [Ar-lein] Ar gael o: http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplancy.pdf [Fel ar: 15/05/2017].

Llywodraeth Cymru, (2016). *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/arts/a-vision-for-culture-in-wales/?lang=cy [Fel ar: 26/06/2017].

Llywodraeth Cymru, (2016). *Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-pioneer-areas-pilot-year/?lang=cy [Fel ar: 16/05/2017].


Llywodraeth Cymru, (2016). *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021.* [Ar-lein] Ar gael o: http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy [Fel ar: 16/05/2017].


Llywodraeth Cymru, (2017). *Grantiau Her Cyfuno 2017-18.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/drah/publications/170203-Cyfuno-info-applicants-cy.pdf [Fel ar: 19/05/2017].


Taylor, P., Davies, L., Wells, P., Gilbertson, J. and Tayleur, W. (2015) A review of the Social Impacts of Culture and Sport. Sheffield: Sheffield Hallam University. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/416279/A_review_of_the_Social_Impacts_of_Culture_and_Sport.pdf [Fel ar: 19/05/2017].


Tom Fleming Creative Consultancy (2015) *Cultural and Creative Spillovers in Europe: Report on a Preliminary Evidence Review*. TFCC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/Cultural_creative_spillovers_in_Europe_full_report.pdf [Fel ar: 19/05/2017].


## Atodiad A – Mapiau





Caerffili
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Cymoedd Canolbarth y Dwyrain
Basn Caerffili
Blaenau Cwm Rhymni
Cymoedd Canolbarth y Gorllewin
Tredegar
Rhymni
Pontlotyn
Blaenau
Blaenafon
Abertyleri
Tal-y-waun
Pentre-bach
Tredegar Newydd
Troed-y-rhiw
Aber-big
Waunfelin
Aber-fan
Bargoed
Crymlyn
Treharris
Mynwent y Crynwyr
Gelli-gaer
Nelson
Abercynon
Fairwater
Ystrad Mynach
Ynysddu
Senghenydd
Wattsville
Rhisga
Machen
Abertridwr
Pen-y-coedcae
Machen Isaf
Trethomas
Rhiwderin
Llanfihangel-y-fedw
Cas-bach
Llysfaen
Marshfield
Rhiwbeina
Pen-twyn
Llanisien
Cartographics GIS/0011/17-18 Fusion Areas


Caerfyrddin
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Troed-y-rhiw
Pentre-bach
Llanybyther
Llanwrtyd Wells
Castell Newydd Emlyn
Llandysul
Llanymddyfri
Pentrebach
Llandeilo
Caerfyrddin
Hendy-Gwyn
Sancler
Narberth
Rhydaman
Ystradgynlais
Talacharn
Cydweli
Pentrebach
Pontardawe
Pen-bre
Porth Tywyn
Llanelli
Y Glais
Penlle'r-gaer
Mynachlog Nedd
Cartographics GIS/0011/17.18 Fusion Areas
Machynys
Tre-gwyr
Treforys
Castell-nedd
Duffryn
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Caerfyrddin


Casnewydd
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Cwmbran
Tredynog
Pont-hir
Wattsville
Rhisga
Y Betws
Caerllion
Llanfaches
Penhow
Machen
Sain Silian
Y Coldra
Machen Isaf
Allt-yr-ynn
Casnewydd
Llan-wern
Trefesgob
Rhiwderin
Bassaleg
Llyswerl
Pilgwenlli
Magwyr
Duffryn
Llanfihangel-y-fedw
Nash
Whitson
Redwick
Cas-bach
Goldcliff
Marshfield
Llansanffraid Gwynllŵg
Pen-twyn
Llanrhymni
Llanbedr Gwynllŵg
Y Rhath
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Dwyrain Casnewydd
Gogledd Casnewydd
Gorllewin Casnewydd
Canol Casnewydd
Cartographics GIS/xxx/16.17 Fusion Areas




Conwy
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Conwy
Llandudno
Bae Colwyn
Rhyl
Prestatyn
Talacre
Ffynnongroyw
Mostyn
Rhuddlan
Abergele
Conwy
Penmaenmawr
Beaumaris
Llanfairfechan
Porthaethwy
Bangor
St Asaph
Caerwys
Llangernyw
Llansannan
Denbigh
Bethesda
Trefriw
Llanrwst
Llanberis
Capel Curig
Betws-Y-Coed
Rhosgadfan
Rhuthun
Dolwyddelan
Pentrefoelas
Llanfihangel Glyn Myfyr
Llanelidan
Cerrigydrudion
Beddgelert
Blaenau Ffestiniog
Maerdy
Glyndyfrdwy
Cynwyd



Gwynedd
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gwynedd
Beaumaris
Conwy
Llanfairfechan
Menai Bridge
Aberffraw
Bangor
Bethesda
Trefriw
Llanrwst
Caernarfon
Llanberis
Capel Curig
Betws-Y-Coed
Dinas Dinlle
Rhosgadfan
Ruthin
Dolwyddelan
Pentrefoelas
Cerrigydrudion
Llanelidan
Clynnog-fawr
Beddgelert
Blaenau Ffestiniog
Maerdy
Nefyn
Cynwyd
Criccieth
Porthmadog
Trawsfynydd
Bala
Pwllheli
Harlech
Llanuwchllyn
Abersoch
Dolgellau
Barmouth
Aberangell
Newbridge
Corris
Machynlleth
Tywyn
Cartographics GIS/0011/17.18 Fusion Areas

**Merthyr Tudful a Chaerdydd**

**Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf**




**Merthyr Tudful**


**Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf**


- De Merthyr Tudful
- Canol Merthyr Tudful
- Gogledd Merthyr Tudful


**Caerdydd**

**Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf**


- Dwyrain Caerdydd
- Gorllewin Caerdydd
- BRG (Butetown, Glan yr Afon a Grangetown)
- STAR (Sblot, Tremorfa, Adamsdown a'r Rhath)




Sir y Fflint
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Flint Gwledig
Flint Trefol
Talacre
Prestatyn
Rhyl
Ffynnongroyw
Mostyn
Rhuddlan
Trefynnon
Llanelwy
Caerwys
Flint
Nannerch
Rhosesmor
Cei Connah
Shotton
Dinbych
Cilcain
Bwcle
Yr Wyddgrug
Llanbedr-Dyffryn-Clwyd
Pontblyddyn
Treuddyn
Yr Hob
Caergwrle
Yr Orsedd
Gresffordd



Torfaen
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Nant-y-glo
Blaenafon
Blaenau
Llanofer
Penperllenni
Abertyleri
Tal-y-waun
Pen-twyn
Trefddyn
Aber-big
Waunfelin
Pont-y-pŵl
Crymlyn
Cwmbrân
Fairwater
Pont-hir
Wattsville
Rhisga
Y Betws
Caerllion
Sain Silian
Allt-yr-ynn
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Gogledd Torfaen
De Torfaen
Cartographics GIS/0011/17.18 Fusion Areas


Wrecsam
Ardaloedd Arloesi a Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf
Pentrefi Trefol, Wrecsam
Parc Caia a Hightown
Llanbedr-Dyffryn-Clwyd
Rhuthun
Pontblyddyn
Treuddyn
Yr Hob
Caergwrle
Yr Orsedd
Gresffordd
Gwersyllt
Llandegla
Wrecsam
Rhostyllen
Malpas
Bangor Is-coed
Rhiwabon
Glyndyfrdwy
Llangollen
Cynwyd
Froncysyllte
Newbridge
Erbistock
Llannerch Banna
Bronington
Glyn Ceiriog
Pontfadog
Y Waun
Bettisfield
Ellesmere
Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Croesoswallt
Cartographics GIS/0011/17.18 Fusion Areas

## Atodiad B:


Mae'r data yn y tabl isod yn sampl o rai o'r mesurau perfformiad mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar draws y rhaglen Cyfuno ('ffyniannus', 'iechyd', a 'dysgu') ynghyd â chyfanswm nifer yr unigolion yr adroddwyd eu bod yn bodloni'r canlyniad a ddymunir. Roedd y sampl yn rhoi darlun o'r cyfraniad a wneir gan y rhaglen yn erbyn fframwaith perfformiad Cymunedau yn Gyntaf. Ar gyfer rhai gweithgareddau Cyfuno, adroddwyd mwy nag un canlyniad ar gyfer unigolyn ar gyfer yr un gweithgaredd.[18] Casglodd y partneriaethau yr wybodaeth fonitro ac adrodd arni mewn ffyrdd gwahanol. Dylid cadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof wrth ddehongli'r data.


| **Mesur Perfformiad / Performance Measure** | **Allbynnau Gwir rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 / Actuals achieved between 1 April 2016 and 31 March 2017** |
|---|---|
| **Ffyniannus** | |
| PC-PM.5.3 Ymwneud yn fwy â'r Gymuned drwy wirfoddoli'n rheolaidd | 219 |
| PC.PM 3.1 Meithrin Sgiliau TG sylfaenol | 134 |
| PC.PM 1.1 Cwblhau cwrs yn gysylltiedig â chyflogaeth | 22 |
| **Iechyd** | |
| HC-PM.2.3 Mwy o Weithgaredd Corfforol | 319 |
| HC-PM.3.2 - Teimlo'n fwy cadarnhaol am eu lles meddyliol | 88 |

[18] Er enghraifft, efallai fod oedolyn sy'n derbyn cymhwyster hefyd wedi adrodd bod ei agwedd tuag at ddysgu yn fwy cadarnhaol neu eu bod yn llai ynysig yn gymdeithasol.

| **<u>Dysgu</u>** | |
|---|---|
| LC-PM 3.4 Mae rhieni yn ymgysylltu’n fwy â'r ysgol | 271 |
| LC PM 4.1 Ennill cymhwyster | 183 |
| LC-PM.2.3. Gwell ymddygiad yn yr ysgol | 159 |
| CD-MP.1.3 Rhieni'n darllen yn rheolaidd gyda'u plant | 83 |

## Atodiad C: Infograffig




Fusion
creating opportunities through culture
Pilot Phase 2015-2017
We worked with
Museums
Archives
Libraries
Heritage Sites
The Arts
Schools
Charities
Local Authorities
Health Bodies
Housing Associations
to make a difference
Over 5000 participants
More than 150 partners
10 programmes across Wales
Over 300 people volunteering
Over 1500 young people supported to do better at school
Over 1250 people supported to live healthier lives
Over 100 people gained a qualification
through taking part in
Archaeology
Art and Craft
Dance
Drama
Digital Media
Film
Literature
Music
Outdoors
Sport
#CyfunoFusion
http://gov.wales/fusion
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
OGL Crown Copyright 2017 WG31723

## Atodiad D: Holiadur

1. Beth yw enw eich sefydliad?
2. Beth yw eich rôl yn y sefydliad?

   Mae'r rhaglen Cyfuno yn cael ei diweddaru i Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant.

   Mae Is-adran Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru wedi arwain y rhaglen Cyfuno ers mis Ebrill 2015 pan wnaethant sefydlu'r dull Ardal Arloesi. Yn y flwyddyn beilot (Ebrill 2015 hyd at Fawrth 2016) cafodd 6 'Ardal Arloesi' eu sefydlu, sef:

   - Caerdydd a Merthyr Tudful (sydd gyda'i gilydd, yn cynnwys un Ardal Arloesi)
   - Gwynedd
   - Casnewydd
   - Torfaen
   - Abertawe
   - Wrecsam

   Yn 2016, cafodd nifer yr Ardaloedd Arloesi sy'n cymryd rhan eu cynyddu i gynnwys:
   - Caerffili
   - Sir Gaerfyrddin
   - Conwy
   - Sir y Fflint.

   Mae'r term 'Ardal Arloesi' yn cael ei ddileu'n raddol a'i newid i 'Bartneriaeth Cyfuno'.

   Yn unol â hyn, mae gweddill yr arolwg yn cyfeirio at y 'Bartneriaeth Cyfuno' i ddisgrifio'r hyn y cyfeiriwyd ati o'r blaen fel 'Ardal Arloesi'.

3. Pa un o'r Partneriaethau Cyfuno canlynol y mae eich sefydliad yn aelod ohoni? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

   - o Caerffili
   - o Sir Gaerfyrddin
   - o Caerdydd / Merthyr Tudful
   - o Conwy
   - o Sir y Fflint
   - o Gwynedd
   - o Casnewydd
   - o Abertawe
   - o Torfaen
   - o Wrecsam
   - o Gwell gennyf beidio â dweud

4. Pryd wnaeth eich sefydliad ymuno a ‘Phartneriaeth Cyfuno’ yn gyntaf?

   - Blwyddyn gyntaf y Rhaglen Cyfuno (rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016)
   - Ail flwyddyn y Rhaglen Cyfuno (Ebrill 2016 hyd yn hyn)
   - Ddim yn gwybod

5. I ba raddau byddech chi’n cytuno neu'n anghytuno â’r datganiadau canlynol:

   O ganlyniad i’r bartneriaeth Cyfuno…
   *Cytuno’n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno’n gryf)*

   - *…*mae fy sefydliad yn targedu gweithgareddau’n fwy effeithiol at bobl sy’n profi tlodi
   - …mae fy sefydliad yn cydweithio’n fwy â phobl sy’n byw mewn cymunedau difreintiedig ar gynllun gweithgareddau.
   - …mae fy sefydliad yn cydweithio’n fwy effeithiol â sefydliadau diwylliannol eraill.
   - …mae fy sefydliad yn cydweithio tua’r un faint ag awdurdodau lleol.
   - …mae fy sefydliad yn gweithio’n fwy effeithiol ag asiantaethau cymunedol lleol o fewn cymunedau difreintiedig.

6. Pam y dewisodd eich sefydliad gymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyfuno? Dewiswch y 3 phrif reswm?

   - Cefnogi pobl i ennill cymhwyster wedi’i achredu
   - Datblygu hyder pobl
   - Datblygu diddordebau a sgiliau pobl
   - Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol
   - Cael y cyfle i weithio gyda grwpiau newydd
   - Cael y cyfle i weithio gyda chymunedau newydd
   - Helpu i ddilysu manteision gweithgareddau diwylliannol i aseswyr allanol
   - Bodloni gofynion cyllido
   - Arall

7. I ba raddau ydych chi wedi gweld y ffactorau canlynol yn heriol, o ystyried cyfranogiad eich sefydliad yn y Bartneriaeth Cyfuno:

   *(Byth, Anaml, Weithiau, Y rhan fwyaf o’r amser, Bob amser)*

   - Cydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill
   - Cydweithio â sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi
   - Cynnwys pobl sy’n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol

- Casglu data monitro a gwerthuso
- Addasu gweithgareddau i gyd-fynd ag amserlen adrodd y rhaglen Cyfuno
- Diffyg cefnogaeth gan awdurdodau lleol
- Rhwystrau trafnidiaeth
- Ansicrwydd ynghylch adnoddau

8. I ba raddau byddech chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?
*(Cytuno'n gryf, Cytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Anghytuno, Anghytuno'n gryf)*

   Ers y Bartneriaeth Cyfuno…

   - ….nid yw dealltwriaeth awdurdodau lleol o werth diwylliant wedi gwella
   - …mae gweithgareddau diwylliannol yn cael eu hystyried mewn modd mwy positif gan sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi
   - …mae'r dull o fonitro a gwerthuso o fewn eich sefydliad yn fwy cadarn.
   - …mae fy sefydliad yn fwy effeithiol wrth gynnal gweithgareddau gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd'.
   - …mae unigolion sy'n profi tlodi yn cael mwy o fynediad i weithgareddau diwylliannol.
   - ,,,nid oes gan fy sefydliad well dealltwriaeth o rôl diwylliant mewn trechu tlodi

9. Pa un o'r ffactorau canlynol fyddai'n fwyaf pwysig i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol? Rhestrwch mewn trefn o'r pwysicaf yn gyntaf i'r lleiaf pwysig yn olaf os gwelwch yn dda.

   - Partneriaeth Cyfuno sy'n cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau o wahanol sectorau
   - Swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir o fewn y Bartneriaeth Cyfuno
   - Data monitro a gwerthuso cadarn
   - Cymeradwyaeth gref gan Lywodraeth Cymru
   - A oes ffrwd gyllido ar gael
   - Cyfleoedd i rannu arferion gorau a phrofiadau
   - Gweithgareddau diwylliannol o safon uchel
   - Cynnwys gweithwyr proffesiynol diwylliannol â gwybodaeth arbenigol.
   - Cysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol

10. Pa ffactorau eraill y credwch fyddai'n fwyaf pwysig i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol?

11. Nodwch yn nhrefn pwysigrwydd pa un o’r canlynol sy’n ffyrdd pwysig yn eich barn chi i ddiwylliant gefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig.  Rhowch hwy mewn trefn, o’r pwysicaf yn gyntaf i’r lleiaf pwysig yn olaf.

   - Dysgu'r blynyddoedd cynnar
   - Dysgu teuluol
   - Dysgu wedi’i achredu
   - Sgiliau digidol
   - Gwirfoddoli, yn enwedig i fagu sgiliau cyflogadwyedd
   - Lleoliadau gwaith neu gyfleoedd eraill ar gyfer cyflogaeth
   - Gweithgareddau sy’n cefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol

12. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gall sefydliadau diwylliannol gefnogi unigolion a chymunedau difreintiedig yn eich barn chi?

## Atodiad E: Canllaw ar gyfer Cyfweliadau

1 I ba sefydliad ydych chi'n gweithio?

2 Beth yw eich rôl yn y sefydliad?

3 Ym mha Bartneriaethau Cyfuno ydych chi wedi / yn gweithio?

4 Beth ydych chi'n meddwl yw nodau / amcanion cyffredinol y rhaglen Cyfuno?

5 Pa rôl ydych chi'n credu y gall sefydliadau ei chwarae o ran trechu tlodi?

6 Ydych chi'n credu bod gan sefydliadau diwylliannol gyfrifoldeb dros gyfrannu amcanion trechu tlodi?

*Pam ydych chi'n meddwl bod ganddynt gyfrifoldeb ...?*

7 Beth oedd cymhelliant eich sefydliad dros ymuno â'r Bartneriaeth Cyfuno?

8 Ym mha ffyrdd y mae eich sefydliad yn cyfrannu tuag at...

*...amcanion trechu tlodi?*
*...amcanion y rhaglen Cyfuno?*
*...Partneriaeth Cyfuno?*

9 Sut mae'r Bartneriaeth Cyfuno yn gweithio'n ymarferol?

*Sut mae'r rhwydwaith yn gweithredu ...?*
*Beth ydych chi'n meddwl yw ei rôl...?*
*A oes cymysgedd da o sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli...?*
*Ydy hyn yn gweithio'n effeithlon...?*
*Disgwyliadau...?*
*A oedd yn ddefnyddiol i chi...? Pam...?*

10 Pa weithgareddau ydych chi wedi eu darparu drwy'r Bartneriaeth Cyfuno?

*Gweithgareddau newydd / rhai a oedd eisoes yn bodoli...?*
*Gweithgareddau untro neu ailadroddus...?*
*Cyfleoedd i gyfranogwyr gamu ymlaen (e.e. drwy achrediad)...?*
*Mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol eraill...?*
*Gwasanaethau awdurdodau lleol ...?*
*Arall...?*

11 Sut y mae gweithgareddau'n cael eu nodi?

12 Sut ydych chi'n adnabod / ymgysylltu â chyfranogwyr?

*Cyd-gynhyrchu...?*
*A yw'r cyfranogwyr yn ymwneud â chynllunio a/neu gyflawni gweithgareddau..?*

13 A yw eich sefydliad wedi newid ei ffyrdd o weithio o ganlyniad i'r Bartneriaeth Cyfuno?

*Os ydy, sut / ym mha ffyrdd?*
*Os nad ydy, pam?*

14 Os ydy, a yw'r newidiadau hyn yn debygol o gael eu cynnal yn y dyfodol?

*Os ydyn, sut / ym mha ffyrdd?*
*Os nad ydyn, pam?*

15 Ydych chi'n gweithio'n fwy cydweithredol yn sgil y Bartneriaeth Cyfuno?

Gyda ...

...sefydliadau diwylliannol eraill...?
...gwasanaethau awdurdodau lleol...?
...asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig...?
...cyfranogwyr...?

16 Ym mha ffyrdd ydych chi'n gweithio'n fwy cydweithredol?

*Enghreifftiau penodol...?*
*Meddwl yn fwy cydgysylltiedig...?*
*Ffyrdd mwy cydgysylltiedig o weithio...?*
*Rhannu syniadau...?*
*Rhannu profiadau...?*
*Rhannu adnoddau...?*
*Newid ymarfer...?*
*Amrywiaeth o bobl sy'n ymwneud â phrosiectau (e.e. pobl sydd â phrofiad blaenorol cyfyngedig neu'n ymwneud â diwylliant, gwirfoddolwyr, prentisiaid ac ati.)*
*Pa ffactorau sy'n cefnogi gweithio'n fwy cydweithredol?*

17 Beth yn eich barn chi yw'r prif fanteision (os o gwbl) yn sgil cymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyfuno...

...i'r cyfranogwyr?
...i'ch sefydliad?
...i sefydliadau diwylliannol eraill?
...i wasanaethau awdurdodau lleol?
...i asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig?

*Manteision sylweddol / pendant (e.e. mwy o allu / galluedd i ymgymryd â gweithgareddau diwylliannol; denu cyllid / adnoddau ac ati)*
*Gwerth ychwanegol*

18 Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r model Partneriaeth Cyfuno o ran darparu pwynt mynediad i weithgareddau diwylliannol ar gyfer grwpiau / unigolion difreintiedig?

19 Beth oedd y prif heriau (os o gwbl) yn gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno?

*A yw'r heriau hyn yn... parhau / wedi'u datrys?*
*Pa rwystrau ydych chi wedi'u hwynebu?*

20 A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellid gwella'r rhaglen Cyfuno?

21 A oes gennych unrhyw sylwadau eraill / adborth arall?

## Atodiad F: Astudiaethau achos

**Partneriaeth Cyfuno Caerffili**

**Cyd-destun:**
Mae rhaglen weithgareddau'r bartneriaeth yn defnyddio diwylliant a threftadaeth i ymgysylltu a gwella sgiliau teuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd ar draws y pedwar clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ym Mwrdeistref Caerffili. Mae'r bartneriaeth yn cefnogi teuluoedd i fanteisio ar brofiadau newydd ac yn chwalu'r rhwystrau traddodiadol sy'n eithrio trigolion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

**Sut y cafodd y bartneriaeth ei ffurfio?**

Ymunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili â'r Rhaglen Cyfuno ym mis Mehefin 2016 ar ôl sicrhau cyllid i gymryd rhan yn ail flwyddyn y cyfnod peilot. Sefydlodd Tîm Adfywio Cymunedol y Cyngor y Rhwydwaith Cyfuno yn ffurfiol ym mis Awst 2016, gan ddwyn ynghyd bedwar o dimau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a 35 o bartneriaid diwylliannol a oedd yn gweithio ar draws y sectorau diwylliannol, celfyddydol, treftadaeth, addysg, amgylcheddol a gwirfoddol yn y Sir. Un o nodau allweddol y Rhwydwaith oedd datblygu a chryfhau'r berthynas sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â datblygu partneriaethau newydd i sicrhau bod y gweithgareddau a ddatblygwyd drwy'r rhaglen waith yn cael yr effaith fwyaf posibl. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith bob chwarter drwy gydol y flwyddyn a rhoddwyd cyfle i bartneriaid diwylliannol rannu gwybodaeth drwy gyflwyniadau ffurfiol a thrafodaethau anffurfiol, gan wella eu dealltwriaeth o'r gwahanol sefydliadau o fewn y rhwydwaith. Gwahoddwyd partneriaid diwylliannol newydd i ymuno â'r rhwydwaith yn barhaus drwy gydol y flwyddyn, naill ai drwy argymhellion gan bartneriaid eraill neu o ganlyniad i gysylltiadau a wnaed fel rhan o'r broses rwydweithio.

Dangosodd arsylwadau gan y partner arweiniol tua diwedd cyfnod y rhaglen bod creu'r rhwydwaith wedi arwain at gysylltiadau gwell rhwng partneriaid

diwylliannol a thimau Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal ag adrannau eraill o fewn yr Awdurdod Lleol. Nodwyd hefyd bod y rhwydwaith wedi datblygu perthynas waith agos gyda thîm Cymunedau yn Gyntaf Torfaen, a oedd yn caniatáu i bartneriaid diwylliannol ddefnyddio eu profiad o gymryd rhan ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod peilot.

**Pa weithgareddau a ddarparwyd drwy'r bartneriaeth?**

Roedd y rhaglen waith yn canolbwyntio'n bennaf ar Ddysgu i Deuluoedd ac Iechyd a Lles (gan gynnwys iechyd meddwl). Datblygwyd prosiectau penodol hefyd yn ymwneud â gwirfoddoli a gwella cyflogadwyedd a oedd yn cefnogi gweithgarwch presennol Cymunedau yn Gyntaf. Drwy gydol y broses o gynllunio a darparu gweithgareddau, rhoddwyd pwyslais ar ddefnyddio asedau diwylliannol sydd eisoes yn bodoli yn y Fwrdeistref ac ar draws y rhanbarth ehangach i gefnogi a gwella gweithgareddau a phrosiectau a oedd ar y gweill. Un o'r prif amcanion oedd annog mwy o ddefnydd o asedau diwylliannol gan drigolion lleol a meithrin gwell ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth lleol, yn ogystal â datblygu gweithgareddau newydd ar y cyd a oedd yn darparu cyfleoedd i gael mynediad i amrywiaeth o brofiadau diwylliannol. Cynhaliwyd digwyddiad diwylliannol bach ar ddiwedd y cyfnod cyflawni i ddathlu llwyddiannau'r cyfranogwyr.

Datblygwyd y rhaglen waith ac fe'i rhoddwyd ar waith mewn partneriaeth glos ag Adran Twristiaeth y Cyngor, gan ganiatáu i'r rhwydwaith fanteisio ar wybodaeth fanwl a phrofiad staff allweddol ym mhob agwedd ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol y fwrdeistref. Bu'r berthynas waith newydd hon yn fodd o hwyluso mynediad i asedau diwylliannol gwerthfawr lleol ar draws y pedwar clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal â'r gweithgareddau a gwasanaethau diwylliannol a gefnogir gan yr Awdurdod Lleol ac a gynigir i drigolion ac ymwelwyr.

Cafodd y prosiectau eu cyflawni yn unol â'r cynllun, gyda llawer yn esblygu ac yn datblygu yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i fewnbwn gwerthfawr gan bartneriaid diwylliannol. Roedd rhai newidiadau i'r amserlen yn ystod y cyfnod

hwn oherwydd i'r rhan fwyaf o brosiectau ddechrau'n hwyrach na'r disgwyl oherwydd oedi cyn cymeradwyo'r grant ac wrth sefydlu strwythurau gweinyddol ac ariannol. Roedd y prosiectau'n canolbwyntio'n bennaf ar ychwanegu gwerth at ganlyniadau presennol Cymunedau yn Gyntaf; fodd bynnag, cafodd rhai gweithgareddau diwylliannol unigol eu cyflwyno gan bartneriaid diwylliannol i drigolion Cymunedau'n Gyntaf nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith wreiddiol. Wrth ddatblygu'r Rhwydwaith Cyfuno, daeth syniadau newydd am brosiectau a phartneriaethau diwylliannol newydd i'r amlwg, gan adlewyrchu dull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig o gynllunio a chyflawni prosiectau. Mae'r Ardal Arloesi yn gobeithio datblygu'r dull hwn ymhellach yn ei gwaith yn y dyfodol drwy roi pwyslais ar ddatblygu prosiectau sy'n cynnwys y rhwydwaith cyfan.

**Beth oedd y prif fanteision i:[19]**

**(a) Partneriaid diwylliannol:**

- Mwy o gydweithio rhwng sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth, yr awdurdod lleol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau cymunedol lleol a chyrff eraill sy'n gweithio o fewn y sir er mwyn cynllunio, ariannu a darparu gweithgareddau a phrosiectau ar y cyd. Mae partneriaethau a oedd eisoes yn bodoli wedi cael eu cryfhau ac mae perthnasoedd gwaith newydd wedi cael eu creu, gyda chyfle pellach i ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol;
- Mwy o ymwybyddiaeth o asedau diwylliannol sy'n bodoli eisoes o fewn y Fwrdeistref a mwy o fynediad iddynt (gan gynnwys safleoedd ac adeiladau hanesyddol, amgueddfeydd a chanolfannau ymwelwyr) ymysg aelodau'r rhwydwaith. Mae hyn yn ei dro wedi galluogi partneriaid diwylliannol i ychwanegu gwerth at brosiectau a gweithgareddau presennol, yn ogystal â helpu i ddatblygu gweithgareddau diwylliannol newydd a'u rhoi ar waith;

---

[19] Casglwyd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adran hon gan Fyrddau Cyflawni Arweiniol ac mae'n seiliedig ar eu canfyddiadau, a'r data a gasglwyd gan randdeiliaid a chyfranogwyr.

- Cyfleoedd i annog grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd (gan gynnwys ysgolion cynradd lleol ac aelodau hŷn y gymuned) a chymunedau ehangach o fewn y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i ymgysylltu â darpariaeth ddiwylliannol yn eu hardal leol a chael profiadau diwylliannol newydd;
- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ymysg cymunedau lleol, gan godi ei phroffil ar draws y pedair ardal glwstwr ac o fewn y Sir.

**(b) Cyfranogwyr:**

- Mwy o ymgysylltu â gweithgareddau lleol sy'n seiliedig ar y diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau;
- Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli o fewn y sectorau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth;
- Cyfleoedd i gael profiadau diwylliannol newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i drefn ac amgylchedd arferol y cyfranogwyr;
- Cynnydd mewn lefelau gweithgaredd corfforol a gwell dealltwriaeth ymhlith y cyfranogwyr o fanteision iechyd yn sgil ymgymryd â gweithgaredd corfforol;
- Agweddau mwy cadarnhaol tuag at les meddyliol a chymdeithasol a gwella sgiliau meddal, megis mwy o hyder, hunan-barch a hunan-gred;
- Cryfhau cysylltiadau rhwng sawl cenhedlaeth mewn cymunedau a lleihau ynysu cymdeithasol ac unigrwydd, yn enwedig ymhlith aelodau hŷn a'r henoed yn y gymuned;
- Cyfleoedd i ddysgu crefft ymarferol, sgiliau technegol a digidol ac ennill cymwysterau ffurfiol;
- Agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu.

**Beth oedd y ffactorau llwyddiant hollbwysig?**

- Datblygu gallu: arweiniodd y gwaith a wnaed i ddatblygu a chyflawni prosiectau yn ystod y flwyddyn at greu'r isadeiledd angenrheidiol i

gefnogi parhad prosiectau a'u datblygiad pellach yn y dyfodol. Ar un prosiect penodol, mae staff wedi cael hyfforddiant wedi'i deilwra i gyflwyno sesiynau; sgiliau y gallant eu defnyddio yn y dyfodol am gost gymharol fach;

- Drwy'r cyfle i ddatblygu cysylltiadau gwaith agos gyda Phartneriaeth Cyfuno Torfaen, Ardal Arloesi sefydledig, roedd modd i'r rhwydwaith ymchwilio i gyfleoedd cydweithio, yn ogystal â dysgu o enghreifftiau o arfer gorau a'r hyn nad oedd mor llwyddiannus.

**Beth oedd y prif heriau?**

- Amserlen fer: Roedd gallu'r partneriaid diwylliannol i gynllunio a datblygu prosiectau ar y cyd drwy'r rhwydwaith Cyfuno wedi'i gyfyngu gan yr amserlen fer ar gyfer cyflawni'r rhaglen waith. Nid oedd y rhwydwaith wedi'i sefydlu'n llawn tan ar ôl i'r Cynllun Busnes gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo ac ar ôl derbyn y cyllid ar gyfer y rhaglen waith;
- Newidiadau i amserlen y rhaglen: Cafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau eu cyflawni'n unol â'r cynllun; fodd bynnag bu oedi gyda rhai a datblygodd ambell un yn brosiect gwahanol gyda chanlyniadau gwahanol. Nododd y partner arweiniol fod yr amserlenni gwreiddiol a osodwyd ar gyfer cyflawni prosiectau wedi bod yn afrealistig ac nid oeddent wedi ystyried yr amser sydd ei angen i sefydlu'r rhwydwaith, cadarnhau cyllid a chwblhau'r rhaglen waith;
- Oedi annisgwyl: Wynebodd rhai prosiectau unigol oedi o ganlyniad i absenoldeb hirdymor staff cyflawni allweddol.

**Cyfleoedd ar gyfer y dyfodol:**

- Dylai prosiectau ar gyfer y dyfodol gael eu cynllunio a'u datblygu ar y cyd drwy'r rhwydwaith, ar y cam cynharaf o'r rhaglen waith, er mwyn sicrhau ymgysylltiad ac ymrwymiad cyrff diwylliannol ac i fanteisio'n llawn ar eu syniadau, eu gwybodaeth, eu profiad a'u hadnoddau.

"*Mae wedi ehangu'r rhwydwaith o bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw, ac mae hefyd wedi rhoi gwell gwybodaeth inni am y ffyrdd y mae sefydliadau eraill yn gweithio hefyd. Oherwydd y rhaglen Cyfuno, rydym wedi gallu dod i wybod mwy am agendâu pobl eraill a chreu cysylltiadau â hwy*." (Partner diwylliannol, Ebrill 2016)

"*Gallwn gydlynu pethau gyda'n gilydd fel nad ydym yn cystadlu am yr un darn o waith. Yna, byddwn yn rhoi rhaglen waith at ei gilydd sy'n nodi anghenion y sir*." (Partner diwylliannol, Ebrill 2016)

"*Roeddwn yn teimlo'n well ynglyn â bod allan yn yr awyr agored a dysgu am hanes lleol a choginio cynhanesyddol*." (Un o gyfranogwyr y Prosiect, Prosiect Fflint)

**Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd**

**Cyd-destun:**

Mae Partneriaeth Cyfuno Gwynedd yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i'r celfyddydau, diwylliant ac amgylcheddau hanesyddol gyfrannu at leihau tlodi a chodi dyheadau trigolion gyda Chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gwynedd.

**Sut y cafodd y bartneriaeth ei ffurfio?**

Sefydlwyd Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd yn 2015 fel rhan o raglen waith Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyfnod peilot yn 2015-16. Mae'r rhwydwaith, dan arweiniad y Cyngor drwy ei dîm Cymunedau yn Gyntaf, yn dod â naw darparwr gwasanaethau diwylliannol, treftadaeth a a chelfyddydol rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd i weithio mewn partneriaeth gyda saith o ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gwynedd.

**Pa weithgareddau a ddarparwyd drwy'r bartneriaeth?**

Deilliodd blaenoriaethau allweddol y Rhwydwaith ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod peilot o gyfuniad o nodi cyfleoedd a gododd o Gynllun Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf Gwynedd a thrwy drafodaethau gyda phartneriaid y rhwydwaith. Roedd y rhaglen waith yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau mewn tri maes blaenoriaeth allweddol:

- Cefnogi teuluoedd i gyfrannu at addysg eu plant;
- Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a sicrwydd cyflogaeth;
- Datblygu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn cymunedau.

O dan y cyntaf o'r meysydd blaenoriaeth hyn gweithiodd y rhwydwaith gyda'r clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu ymhellach brosiect yn seiliedig ar y defnydd o'r Llofnod Dysgu fel Teulu - offeryn a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ac ysgolion i ddatblygu a thargedu adnoddau gyda'r nod o wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad, yn enwedig ymhlith teuluoedd a dysgwyr anodd eu cyrraedd a'r rhai sydd wedi ymddieithrio. Rhoddwyd yr

offeryn ar waith yn gyntaf gan Gyngor Gwynedd yn 2014 fel rhan o brosiect ar y cyd mewn partneriaeth ag ysgolion Cynradd ac Uwchradd o fewn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ac a ddatblygwyd yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn gyntaf cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno. Yn ystod yr olaf, rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu rhaglen o weithgareddau teuluol mewn lleoliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth ar draws y sir sy'n anelu at ysgogi teuluoedd i ymgysylltu â dysgu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng teuluoedd, ysgolion a'r gymuned ehangach.

Sicrhaodd Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd gyllid fel rhan o ail flwyddyn y cyfnod peilot i barhau ac ehangu'r prosiect, gan ei alluogi i weithio gyda'r garfan wreiddiol o ddisgyblion a theuluoedd a gymerodd ran yn y flwyddyn gyntaf a datblygu cysylltiadau gyda grŵp newydd o deuluoedd o fewn y clwstwr. Cymerodd dros 100 o deuluoedd ran yn ail flwyddyn y prosiect gan weithio gydag aelodau o'r Rhwydwaith Cyfuno i ddatblygu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau lleol yn seiliedig ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Roedd y pwyslais yn bennaf ar ychwanegu gwerth at brosiectau neu weithgareddau presennol a gynigir gan y partneriaid diwylliannol, drwy deilwra'r rhain i'r blaenoriaethau penodol a nodwyd drwy'r broses dysgu fel teulu. Felly roedd darparu sesiynau difyr, cyfeillgar i deuluoedd y gellid eu haddasu'n hawdd i wahanol grwpiau oedran yn bwysig, ac ar yr un pryd creu amgylchedd cefnogol a fyddai'n annog teuluoedd i ymweld â lleoliadau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth yn annibynnol yn ddiweddarach.

**Beth oedd y prif fanteision i:**

**(a) Partneriaid diwylliannol:**

- Gwell ymwybyddiaeth o grwpiau anodd eu cyrraedd a'u hanghenion penodol;
- Gwell cydweithio rhwng partneriaid y rhwydwaith a sefydliadau eraill i gyflawni canlyniadau tebyg - mwy o waith 'cydgysylltiedig';
- Datblygu perthynas newydd sydd o fudd i bawb o fewn y Rhwydwaith Cyfuno ac ar draws y rhaglen ehangach gan ganiatáu cyfnewid

gwybodaeth a rhannu arferion gorau a syniadau, yn ogystal â methiannau;

- Hwyluso cysylltiadau gydag ysgolion lleol o fewn y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf;

**(b) Cyfranogwyr:**

- Datblygu a gwella sgiliau meddal, megis cynnydd mewn hyder a hunan-barch;
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r arlwy diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth lleol a bod yn agored i ymchwilio i brofiadau diwylliannol newydd a chadarnhaol o fewn yr ardal leol a'u croesawu.

**Beth oedd y ffactorau llwyddiant hollbwysig?**

- Ymrwymiad a chefnogaeth gan yr holl bartneriaid, gan sicrhau gweledigaeth gyffredin;
- Pwyslais cryf ar greu amgylchedd cydweithredol a chefnogol;
- Cyfuno adnoddau i gefnogi cydweithio.

**Beth oedd y prif heriau?**

- Yr her o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu cyfres effeithiol o weithgareddau o fewn amserlen y rhaglen;
- Yr her o sicrhau ymgysylltiad cyson teuluoedd ar draws y clwstwr;
- Anghysondeb o ran blaenoriaethu'r broses llofnod dysgu fel teulu mewn ysgolion ar draws y clwstwr;
- Cynnwys partneriaid gyda'r capasiti a'r gallu angenrheidiol i ddarparu gweithgareddau'n effeithiol.

**Cyfleoedd ar gyfer y dyfodol:**

- Ymgysylltu â phartneriaid diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol newydd a datblygu ymyriadau cydweithredol newydd;
- Cynnal cysylltiadau presennol gyda phartneriaid diwylliannol a chyfranogwyr y prosiect ac adeiladu arnynt, gan ddatblygu dulliau

newydd o gydgynhyrchu /cydgynllunio / cyd-greu prosiectau a gweithgareddau;

- Ehangu cwmpas a chyrhaeddiad y prosiect i ymgysylltu â charfan newydd o deuluoedd;
- Datblygu dull mwy cadarn a chyfannol o fonitro a gwerthuso canlyniadau prosiectau. Fel rhan o hyn, gellir olrhain datblygiad agweddau ac ymddygiad teuluoedd, er enghraifft drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau iechyd a lles;
- Datblygu ffordd o rannu'n well yr hyn sy'n llwyddo a'r hyn nad yw'n llwyddo.

"*Rydym yn gweithio tuag at yr un un amcanion. Ac yn hytrach na phawb yn cael trafferth i wneud popeth ar eu pen eu hunain, mae mwy o rannu'n digwydd. Mae'n ffordd dda o gydnabod arferion da - byddwch yn dysgu pethau defnyddiol, byddwch yn rhannu eich methiannau hefyd, ac rwy'n credu ei fod yn gefnogol iawn yn hynny o beth. Os nad yw rhywbeth yn gweithio, rwyt ti'n gallu bod yn onest am y peth a cheisio dod o hyd i ffordd o gwmpas hynny. Drwy ei rannu gyda rhywun arall, gallai rhywun gynnig ffyrdd o oresgyn y broblem honno*."

*"Mae wedi bod yn ffordd dda o gael gafael ar ysgolion a rhannu gyda'r ysgolion y math o waith y gallwn ei gynnig, ac mae hynny wedi bod yn fuddiol iawn oherwydd nid wyf yn credu bod yr ysgolion yn ein gweld ni fel rhywun a allai ymdopi â chefnogi teuluoedd. Nid oeddent yn sylweddoli efallai fod arbenigwyr o fewn yr amgueddfa sydd nid yn unig yn gweithio gyda'r casgliadau, ond mae yna swyddog dysgu go iawn sy'n gallu eu cefnogi hefyd."*

*"Rydym yn datblygu perthynas gyda phawb a phan fydd hynny yn ei le a phan fyddwch yn gwybod pwy sydd yno, pwy sy'n gweithio ac yn gwneud beth, rydych yn fwy tebygol o godi'r ffôn a gofyn, os oes gennych syniad, a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud gyda'n gilydd? Ac rwy'n credu bod ymdeimlad*

*da o gydweithredu a chefnogaeth ymysg ein gilydd. Gallwch weld hynny ym mhob un o'r cyfarfodydd, felly mae'n berthynas dda."*

*"Mae'n broses araf, ond rwy'n credu ein bod wedi gweld gwahaniaeth. Cymerais ran yn y cynllun peilot a gwn fod rhai pethau wedi gwella yr ail dro."*

"*Gall y gefnogaeth sydd ei hangen ar y teuluoedd fod yn eithaf dwys ac rydych yn teimlo efallai nad ydych yn gymwys i ymdrin â'r heriau hynny. Mae angen i'r sefydliadau diwylliannol fuddsoddi mewn hyfforddiant i'n galluogi i ymdrin â theuluoedd heb gefnogaeth ysgolion ac athrawon hyfforddedig. Rwyf yno ar fy mhen fy hun ac weithiau rwy'n teimlo efallai bod angen rhagor o sgiliau arnaf. Gallai fod ar ffurf pawb yn rhoi eu pennau at ei gilydd ac yn trafod yr holl broblemau maent wedi'u cael a gweld a oes ffordd o gynnig cefnogaeth drwy hyfforddiant i ni fel darparwyr*."

*"Gobeithio y bydd y gweithgareddau a ddarparwyd gennym yn denu teuluoedd yn ôl ar ôl iddynt brofi ein sesiynau wedi'u teilwra, a dyna ein nod. ... Pan fyddwn yn cymryd rhan y flwyddyn nesaf, byddem yn cynnal cyfres o sesiynau yn hytrach na dim ond sesiynau untro, oherwydd mae'n cymryd amser i ddod i adnabod eich teulu ac ennyn eu hymddiriedaeth".*

*"Pe bai'r gallu gennych i weithio gyda hwy am gyfnod hwy o amser, gallech gael trafodaeth am y math o beth yr hoffent ei wneud, ond gan mai un sesiwn ydyw, nid yw'n ymarferol iawn."*

## Partneriaeth Diwylliant a Chymuned Casnewydd

**Cyd-destun:**

Mae gwaith Partneriaeth Cyfuno Casnewydd yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd i'r celfyddydau, diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol gyfrannu at leihau tlodi a chodi dyheadau ar gyfer preswylwyr sy'n byw yn y pedwar Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ar draws dinas Casnewydd.

**Sut y cafodd y bartneriaeth ei ffurfio?**

Sefydlwyd y Bartneriaeth Cyfuno gan Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Medi 2015 ac mae'n cael ei harwain gan dîm Cymunedau yn Gyntaf, gyda chymorth gan gynrychiolwyr o ddeg o sefydliadau, grwpiau a chyrff sy'n ymgymryd â gwaith celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth ac addysg ar draws y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Yn ystod camau cynnar rhaglen 2016/17, cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol rhwng y Tîm Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid allweddol (a oedd yn cynnwys partneriaid newydd a phresennol a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen 2015/16) i ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad o flwyddyn gyntaf y cyfnod peilot. Nodwyd cryfderau a gwendidau partneriaid allweddol a'u gallu i gymryd rhan yn yr ail flwyddyn; a chysylltiadau i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynlluniau Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Casnewydd... Roedd y rhaglen waith yn canolbwyntio ar ddau faes blaenoriaeth allweddol; Iechyd a Lles a'r Economi a Sgiliau, a chydweithiodd y partneriaid i gynllunio a chyflawni prosiectau a gweithgareddau o dan y themâu hyn, gan dynnu ar eu sgiliau, eu gallu, eu profiad blaenorol, eu gwybodaeth a blaenoriaethau sefydliadol (darperir rhagor o fanylion isod).

Awgrymodd sylwadau a wnaed gan un partner diwylliannol fod y cysylltiad uniongyrchol â thimau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ledled y ddinas, gyda'u dealltwriaeth drylwyr o'r ardaloedd lleol ac anghenion a blaenoriaethau trigolion y gymuned, wedi galluogi partneriaid i gynllunio a thargedu gweithgareddau'n effeithiol.

*"Rwy'n cynnal prosiect mawr... ac roeddwn yn awyddus i roi'r prosiect hwnnw mewn lle defnyddiol, lle y byddai'n cael yr effaith fwyaf. Felly, cysylltais â Cymunedau yn Gyntaf a gofyn beth fyddai eu cyngor o ran yr ysgolion y gallem weithio gyda nhw lle y gallem gael effaith wirioneddol a rhoi profiad gwahanol i bobl ifanc na fyddent yn ei gael fel arfer... roedd yn ymwneud yn fwy â gofyn am gyngor gan Gymunedau yn Gyntaf fel partner a dweud ble yn eich barn chi y byddai'n ddefnyddiol iddo gael effaith."*

Amlygodd y partner hefyd bod gallu'r timau Cymunedau yn Gyntaf i hwyluso mynediad i gymunedau lleol ac ymgysylltu â hwy yn hanfodol o ran galluogi ymgysylltiad llwyddiannus gyda'r cyfranogwyr, fel y dengys y dyfyniad hwn:
*"Gall fod yn anodd iawn, yn enwedig pan fyddwch yn dechrau mewn cymuned ac rydych yno gyda drws yr ystafell ar agor gan ddweud 'mae croeso i chi dod i mewn'. Dyna lle mae'r partneriaethau'n hanfodol... Mewn un prosiect gwnaed hynny drwy gysylltiadau a gafwyd drwy Cymunedau yn Gyntaf, felly lledaenu'r gair cymaint â phosibl drwy'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, siarad â thrigolion lleol, rhoi taflenni drwy ddrysau pobl dim ond er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn gwybod ei fod yn digwydd."*

**Pa weithgareddau a ddarparwyd drwy'r bartneriaeth?**

Mae rhaglen waith 2016/17 yn adeiladu ar y prosiectau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn beilot i gefnogi darparu ystod o ganlyniadau a ddiffiniwyd o dan y ddau faes blaenoriaeth, sef Iechyd a Lles a'r Economi a Sgiliau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- defnyddio safleoedd diwylliannol a threftadaeth i hyrwyddo gweithgareddau sy'n seiliedig ar iechyd a lles;
- cefnogi pobl ifanc y nodwyd eu bod, neu sydd mewn perygl o fod yn rhai 'Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET) drwy gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli;
- gwella dysgu cymunedol a chynhwysiant digidol drwy brosiectau sy'n anelu at gefnogi preswylwyr i feithrin sgiliau digidol;

- cynyddu ymgysylltu â diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau, yn enwedig ymhlith pobl iau, drwy ddigwyddiadau a rhaglenni wedi'u targedu / teilwra.

Drwy ganolbwyntio ar gefnogi prosiectau a gweithgareddau dilynol o'r flwyddyn beilot, gallai'r bartneriaeth ddefnyddio gwersi allweddol a ddysgwyd o'r rhaglen waith flaenorol. Yn benodol, effeithiolrwydd gwahanol ddulliau ymgysylltu â'r gymuned a'r gallu i addasu gweithgarwch yn ôl gwahanol anghenion a blaenoriaethau'r cyfranogwyr, a hefyd adeiladu ar y cysylltiadau presennol a ffurfiwyd gyda phartneriaid allweddol a thrigolion lleol o fewn y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

Roedd rôl y partneriaid diwylliannol o ran cyflawni prosiectau yn amrywio yn dibynnu ar natur y gweithgaredd, o weithredu fel partneriaid cyflawni arweiniol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni i letywyr a phartneriaid sy'n cyfrannu at brosiectau.

**Beth oedd y prif fanteision i:**

**(a) Partneriaid diwylliannol:**

- Cyfle i ganiatáu i sefydliadau bach a grwpiau sy'n gweithio o fewn y sectorau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth gydag adnoddau cyfyngedig i gyfrannu at raglen ehangach ar gyfer trechu tlodi drwy ymgysylltu diwylliannol;
- Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ymhlith aelodau'r bartneriaeth, gan arwain at gynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth a chyfleoedd i gynllunio a darparu gweithgareddau diwylliannol ar y cyd ar draws y pedair ardal glwstwr ac ar lefel Sirol ehangach;
- Datblygu adnoddau a chyfleoedd dysgu pwrpasol ar gyfer ysgolion cynradd gyda'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf gan fanteisio'n uniongyrchol ar safleoedd ac asedau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth lleol;

**(b) Cyfranogwyr:**

- Mwy o ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth lleol a mwy o ymgysylltu â gweithgareddau lleol sy'n seiliedig ar ddiwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau;
- Cynnydd mewn lefelau gweithgaredd corfforol y cyfranogwyr a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o fewn amrywiaeth o leoliadau lleol;
- Mwy o ryngweithio cymdeithasol a chyfleoedd i gwrdd ag unigolion a grwpiau eraill o'r gymuned leol a rhannau eraill o'r ddinas;
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau digidol newydd gan ddefnyddio cynnwys ar-lein rhyngweithiol a diddorol;
- Cyfleoedd i wella gwybodaeth am ddysgu digidol o fewn lleoliad addysgol a chymunedol ffurfiol;
- Gwell sgiliau cyflogadwyedd ymhlith y cyfranogwyr drwy hyfforddiant a rhaglenni ymarferol (gan gynnwys marchnata a gwerthu, ymchwil; gwneud ffilmiau a chyfryngau cymdeithasol) a gwella sgiliau 'meddal' fel gweithio mewn tîm; a chyfathrebu;
- Cryfhau cysylltiadau rhwng sawl cenhedlaeth o fewn cymunedau
- Cynyddu ymgysylltiad cymdeithasol ymhlith grwpiau sydd ar y cyrion yn draddodiadol o fewn y cymunedau.

**Beth oedd y ffactorau llwyddiant hollbwysig?**

- Mae cael cydlynydd rhwydwaith sydd â chyswllt uniongyrchol â thimau Cymunedau yn Gyntaf, dealltwriaeth drylwyr o'r sefydliadau allweddol yn y sector diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau a chysylltiadau presennol gyda hwy wedi bod yn hanfodol o ran hwyluso ymgysylltu'n llwyddiannus â phartneriaid newydd, yn ogystal â chefnogi datblygiad gweithgareddau diwylliannol newydd;
- Roedd y cyfle i ddatblygu perthynas waith gyda thimau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ar y lefel gymunedol leol yn galluogi partneriaid diwylliannol i gael gafael ar gyllid ac adnoddau yn llwyddiannus i ddatblygu prosiectau cydweithredol newydd i gefnogi gwaith y bartneriaeth;

- Drwy gynnwys cymunedau yn y broses o nodi anghenion a blaenoriaethau, crëwyd mwy o ymdeimlad o berchnogaeth o'r prosiectau a'r gweithgareddau, ac ymrwymiad iddynt.
- Dywedodd y partneriaid fod elfen rhwydweithio'r bartneriaeth yn hanfodol i rannu arferion da a thrafod syniadau ar gyfer prosiectau cydweithredol.

**Beth oedd y prif heriau?**

- Amser a'r gallu i fesur effaith prosiectau a gweithgareddau a chyfleu eu heffaith a'u llwyddiannau.

**Cyfleoedd ar gyfer y dyfodol:**

- Cynnal perthnasoedd gwaith rhwng partneriaid diwylliannol a thimau Cymunedau yn Gyntaf, a chynnal cysylltiadau â chymunedau lleol;
- Mwy o ffocws ar rôl y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth gyfrannu at amcanion lles ar draws gwahanol genedlaethau, o garfanau iau o'r boblogaeth i bobl hŷn;
- Dylai rhaglenni yn y dyfodol anelu at weithio'n agosach gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn galluogi Cyfuno i ddysgu o'u dull o olrhain cyfranogwyr drwy ei wasanaethau amrywiol. O fewn hyn, dylid rhoi pwyslais hefyd ar rôl y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol o ran cynorthwyo unigolion ar eu taith tuag at fyw'n annibynnol neu sicrhau hyfforddiant neu gyflogaeth.

"*Cefais gymorth gan Cymunedau yn Gyntaf o ran y cyllid ac fe wnaethant ysgrifennu llythyr o gefnogaeth imi. Fyddwn i ddim wedi cael hynny heb y cysylltiad cyntaf â nhw ac roeddent yn gwbl fodlon gwneud hynny, oherwydd eu bod wedi gweld ansawdd y gwaith yr oeddem yn ei wneud a'r ffordd yr oeddem yn ei wneud, ac roedd hynny'n taro deuddeg gyda nhw o ran yr hyn yr oeddent yn ceisio ei wneud*."

*"...mae dim ond cael y cyfle i fod o amgylch y bwrdd a gweld pytiau o waith pobl a siarad am yr hyn y mae pobl yn ei wneud yn ddefnyddiol iawn oherwydd wyddoch chi byth beth fydd yn deilio o'r cyfarfodydd rhwydweithio hyn, a phwy sydd wedyn yn cysylltu â rhywun arall gan ddweud 'Wyddwn i ddim eich bod yn gwneud hynny, allwn ni siarad amdano?'."*

*"Rwy'n credu ei bod yn rhaglen gwerth chweil... mae'n lle ffrwythlon iawn i weithio a byddwn wrth fy modd parhau i weithio yn y cymunedau y mae Cyfuno yn gweithio ynddyn nhw, a pharhau i weithio yno yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf a gweld i ble y bydd hynny yn ein harwain."*

## Atodiad G: Canlyniadau'r arolwg

**Tabl 1:**

| **I ba raddau byddech chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? O ganlyniad i'r bartneriaeth Cyfuno...** | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Cyfrif Ymateb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| …mae fy sefydliad yn cydweithio'n fwy â phobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ar gynllun gweithgareddau. | 20 | 24 | 15 | 4 | 0 | 63 |
| …mae fy sefydliad yn targedu gweithgareddau'n fwy effeithiol at bobl sy'n profi tlodi. | 21 | 25 | 11 | 5 | 0 | 62 |
| …mae fy sefydliad yn cydweithio'n fwy effeithiol â sefydliadau diwylliannol eraill. | 25 | 22 | 13 | 3 | 0 | 63 |
| …mae fy sefydliad yn cydweithio tua'r un faint ag awdurdodau lleol. | 15 | 21 | 24 | 3 | 0 | 63 |
| …mae fy sefydliad yn cydweithio'n fwy effeithiol ag asiantaethau cymunedol lleol sy'n gweithio o fewn cymunedau difreintiedig. | 22 | 28 | 11 | 2 | 0 | 63 |

**Tabl 2:**

| **Pam y dewisodd eich sefydliad gymryd rhan yn y Bartneriaeth Cyfuno? Dewiswch y 3 phrif reswm.** | **Cyfrif Ymateb** |
|---|---|
| Cefnogi pobl i ennill cymhwyster wedi'i achredu | 5 |
| Datblygu hyder pobl | 25 |
| Datblygu diddordebau a sgiliau pobl | 36 |
| Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol | 55 |
| Cael y cyfle i weithio gyda grwpiau newydd | 26 |
| Cael y cyfle i weithio gyda chymunedau newydd | 28 |
| Bodloni gofynion cyllido | 0 |
| Arall | 6 |
| Cyfanswm | 63 |

**Tabl 3:**

| **I ba raddau ydych chi wedi gweld y ffactorau canlynol yn heriol, o ystyried cyfranogiad eich sefydliad yn y Bartneriaeth Cyfuno?** | **Byth** | **Anaml** | **Weithiau** | **Y rhan fwyaf o'r amser** | **Bob amser** | **Cyfrif Ymateb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill | 16 | 35 | 7 | 1 | 3 | 62 |
| Cydweithio â sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi | 11 | 32 | 17 | 1 | 2 | 63 |
| Cynnwys pobl sy'n profi tlodi mewn gweithgareddau diwylliannol | 1 | 20 | 35 | 5 | 2 | 63 |
| Casglu data monitro a gwerthuso | 2 | 16 | 34 | 8 | 2 | 62 |
| Addasu gweithgareddau i gyd-fynd ag amserlen adrodd y rhaglen Cyfuno | 10 | 17 | 24 | 7 | 2 | 60 |
| Diffyg cefnogaeth gan awdurdodau lleol | 23 | 23 | 14 | 1 | 2 | 63 |
| Rhwystrau trafnidiaeth | 11 | 16 | 29 | 2 | 3 | 61 |
| Ansicrwydd ynghylch adnoddau | 6 | 12 | 29 | 7 | 7 | 61 |

**Tabl 4:**

| **I ba raddau byddech yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Ers y bartneriaeth Cyfuno…** | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Cyfrif Ymateb** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| …nid yw dealltwriaeth awdurdodau lleol o werth diwylliant wedi gwella. | 3 | 9 | 16 | 24 | 11 | 63 |
| …mae gweithgareddau diwylliannol yn cael eu hystyried mewn modd mwy positif gan sefydliadau cymunedol a gwrthdlodi. | 9 | 41 | 11 | 1 | 1 | 63 |
| …mae'r dull o fonitro a gwerthuso o fewn eich sefydliad yn fwy cadarn. | 3 | 14 | 37 | 6 | 3 | 63 |
| …mae fy sefydliad yn fwy effeithiol wrth gynnal gweithgareddau gyda grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. | 7 | 24 | 23 | 7 | 2 | 63 |
| …mae unigolion sy'n profi tlodi yn cael mwy o fynediad i weithgareddau diwylliannol. | 5 | 37 | 15 | 4 | 1 | 62 |
| … nid oes gan fy sefydliad well dealltwriaeth o rôl diwylliant mewn trechu tlodi. | 1 | 5 | 14 | 22 | 20 | 62 |

**Tabl 5:**

| **Pa un o'r ffactorau canlynol fyddai'n fwyaf pwysig i lwyddiant y dull Partneriaeth Cyfuno yn y dyfodol? Rhestrwch mewn trefn o'r pwysicaf yn gyntaf i'r lleiaf pwysig yn olaf os gwelwch yn dda?** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **N** | **%** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Cyfuno sy'n cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau o wahanol sectorau | 20 | 8 | 10 | 7 | 4 | 6 | 1 | 3 | 2 | 61 | 62 |
| Swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir o fewn y Bartneriaeth Cyfuno | 5 | 3 | 6 | 6 | 8 | 11 | 6 | 8 | 5 | 58 | 24 |
| Data monitro a gwerthuso cadarn | 1 | 4 | 2 | 5 | 7 | 5 | 8 | 12 | 13 | 57 | 12 |
| Cymeradwyaeth gref gan Lywodraeth Cymru | 8 | 5 | 10 | 6 | 6 | 4 | 6 | 7 | 8 | 60 | 38 |
| A oes ffrwd gyllido ar gael | 11 | 15 | 7 | 5 | 4 | 6 | 6 | 5 | 3 | 62 | 53 |
| Cyfleoedd i rannu arferion gorau a phrofiadau | 5 | 6 | 6 | 4 | 8 | 7 | 9 | 8 | 7 | 60 | 28 |
| Gweithgareddau diwylliannol o safon uchel | 7 | 10 | 5 | 17 | 5 | 5 | 3 | 4 | 1 | 57 | 39 |
| Cynnwys gweithwyr proffesiynol diwylliannol â gwybodaeth arbenigol | 5 | 9 | 10 | 6 | 7 | 6 | 8 | 3 | 5 | 59 | 40 |
| Cysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol | 2 | 4 | 7 | 4 | 10 | 7 | 9 | 6 | 12 | 61 | 21 |